| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i** | **Cyfarfod y Bwrdd Comisiynwyr** |
| **Dyddiad** | **3 Hydref 2011** |
| **Pwnc** | **Rhaglen Ynys Ynni: Canlyniadau Posibl a Mesurau Perfformiad** |
| **Deilydd(ion) Portffolio** | **Y Comisiynydd Alex Aldridge** |
| **Swyddog(ion) Arweiniol** | **Sasha Wynn Davies (Cyfarwyddwr Rhaglen Ynys Ynni)** |
| **Swyddog Cyswllt** | **Rhys L Jones (Swyddog Datblygu Prosiect, Uned Datblygu Economaidd)** |

**Natur a rheswm am adrodd**

Cael cymeradwyaeth y Bwrdd Comisiynwyr ar gyfer Canlyniadau Posibl a Mesurau Perfformiad y Rhaglen Ynys Ynni (RhYY) a mofyn caniatâd i sicrhau bod y canlyniadau posibl a'r mesurau perfformiad yn sail tystiolaeth o bwys ar gyfer unrhyw bolisïau y bydd CSYM yn eu llunio yn y dyfodol, megis y Cynllun Cymunedol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

**A - Cyflwyniad / Cefndir / Materion sydd angen sylw**

**Cyflwyniad**

Gweledigaeth RhYY yw creu canolfan fyd-enwog ar gyfer Ymchwilio i a Datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel cynaliadwy. Trwy fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig gyda'r sector ynni, mae gan RhYY y potensial i ddod â manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol a fydd yn trawsnewid Ynys Môn a Gogledd-orllewin Cymru.

Gyda'r orsaf niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa, y trydydd cylch o ddatblygiadau ffermydd gwynt yn y môr a chynlluniau pwysig eraill sy'n gysylltiedig ag ynni, mae'r cyfleoedd posibl i Ynys Môn a'r is-ranbarth yn sylweddol. Fodd bynnag, heb wybod beth yw'r achos sail (sef lle yr ydym ar hyn o bryd) a lle yr hoffem fod yn 2025, mae'n amhosibl bron i fesur effeithiau a llwyddiant y RhYY.

**Cefndir**

Ym mis Ionawr 2011, comisiynwyd ESYS Consulting gan CSYM i adolygu ac asesu'r targedau a'r canlyniadau posibl mewn perthynas â chynlluniau'r Rhaglen Ynys Ynni a

sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol yn y cyfnod hyd at 2025.

Trwy ddulliau modelu/darogan economaidd, sefydlodd yr Astudiaeth achos sail (h.y. sefyllfa gymdeithasol-economaidd gyfredol Ynys Môn) a thair senario ynghylch sut y gallai economi'r Ynys edrych yn 2025 petai'r cynlluniau Ynys Ynni yn cael eu gwireddu. Y senarios a nodwyd oedd; 1) rhagolygon o ran swyddi yn sgil gorsaf niwclear newydd yn Wylfa; 2) Gorsaf newydd yn Wylfa a swyddi newydd yn sgil mentrau eraill dan y RhYY; a, 3) Gorsaf newydd yn Wylfa a'r nifer uchaf posibl o swyddi yn sgil mentrau eraill dan y RhYY.

Cafodd y senarios hyn eu meincnodi yn erbyn yr achos sylfaenol a chafodd effeithiau ychwanegol net y RhYY eu mesur. Dim ond trwy wybod lle yr ydym ar hyn o bryd (sef yr achos sail), a lle yr hoffem fod (y senarios a ragamcanwyd), y gellir dyfeisio a blaenoriaethu camau gweithredu manwl er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniadau hyn. Mae hon yn ymarfer ar wahân sydd yn mynd rhagddi ar hyn o bryd drwy broses cynllunio busnes RhYY gan ddefnyddio'r ffrydiau gwaith perthnasol.

**Materion**

Oherwydd maint y cynllun ar gyfer y gorsaf niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa a chynlluniau eraill sy'n gysylltiedig ag Ynys Ynni, daethpwyd i'r casgliad yn yr adroddiad y gall y RhYY arwain at newidiadau mawr o ran ei chyfraniad i economi, i gymuned ac i amgylchedd yr Ynys. Mae maint yr effaith a gâi'r cynllun o'r herwydd yn golygu bod y targedau a'r mesurau perfformiad a nodwyd yn berthnasol nid yn unig i'r RhYY a'r economi ehangach ond yn rhai y gellir yn ogystal eu trosglwyddo i feysydd gwasanaeth eraill wrth gynllunio a llunio polisïau ar gyfer y dyfodol er mwyn sicrhau y gellir rhannu canlyniadau sy'n cydweddu a gwneud y defnydd gorau posibl o adnoddau CSYM).

O'r herwydd, argymhellir bod y canlyniadau posibl a'r mesurau perfformiad yn cael eu cefnogi a bod yr adroddiad yn sail tystiolaeth o bwys ar gyfer unrhyw bolisïau y bydd CSYM yn eu llunio yn y dyfodol gan gynnwys Polisi Cynllunio Strategol a'r CDLl ar y cyd gyda Chyngor Gwynedd.

## B - Ystyriaethau

Mae Adroddiad ESYS (Atodiad A) yn ymhelaethu ar yr Astudiaeth a gynhaliwyd yn 2010 o Farchnad Lafur Gogledd Cymru a defnyddiwyd y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer darogan y sefyllfa gymdeithasol-economaidd ac mae wedi cael ei ddilysu gan Wasanaeth Ymgynghorol Economaidd Llywodraeth Cymru. Gellir cadw'r wybodaeth hon a'i diweddaru ar unrhyw system rhannu data y bydd y Cyngor o bosib yn ei phwrcasu. Er enghraifft, dylai'r wybodaeth waelodlin a'r rhagamcanion fod yn sylfaen i bolisïau yn y dyfodol o ran y gofynion mewn perthynas â thir cyflogaeth, buddsoddi yn yr isadeiledd cludiant, sgiliau ac anghenion hyfforddi ac ati.

## C - Goblygiadau ac Effeithiau

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyllid / Adran 151** | Dim Sylw |

| C - Goblygiadau ac Effeithiau | | |
|---|---|---|
| | | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anrhefn**<br>(gweler nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundeb Canlyniadau** | |

**CH – Crynodeb**

I grynhoi, mae'r Adroddiad hwn yn amlinellu'n glir botensial sylweddol Wylfa a chynlluniau eraill sy'n gysylltiedig ag Ynys Ynni. Heb y dangosyddion perfformiad hyn, byddai'n hynod anodd mesur effeithiau cymdeithasol-economaidd (a chyfleoedd) datblygiadau arfaethedig y sector preifat ac, yn y pen draw, lwyddiant y Rhaglen Ynys Ynni a'i swyddogaeth allweddol o ran hwyluso'r rhain.

Oherwydd y cyfle unwaith mewn cenhedlaeth hwn, gallai'r manteision o ran trawsnewid yr Ynys fod yn anferthol. Mae graddfa ac amrywiaeth y manteision hyn yn golygu y gall y canlyniadau a nodwyd fod o fudd i bolisïau a meysydd gwasanaeth eraill a ddylai fabwysiadu'r mesurau perfformiad er mwyn sicrhau ffocws a chysondeb gan osgoi dyblygu. O'r herwydd, dylid mabwysiadu'r Adroddiad Canlyniadau Posibl a Mesurau Perfformiad fel sail tystiolaeth ac arfer dda ar gyfer cynllunio a llunio polisïau yn y dyfodol a mesur perfformiad lle mae cyfres o ganlyniadau cyffredin yn cael eu defnyddio.

Y casgliadau allweddol a nodwyd yn yr Astudiaeth oedd:

- Cynnydd o 10-13% mewn GVA dros ac uwchlaw'r achos sylfaenol / tueddiadau yng Nghymru hyd at 2025;
- 2,000 net o swyddi ychwanegol hyd at 2025, ynghyd ag hyd at 6000 o swyddi adeiladu ychwanegol;
- Lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ynys – gyda'r gyfran o bobl ifanc rhwng 16-24 oed fel canran o'r boblogaeth gyfan yn sefydlogi ar 10%;
- Dylid gweld gostyngiad yn nifer y bobl sy'n ddi-waith a gallai'r nifer o bosibl syrthio islaw'r cyfraddau ar gyfer Cymru;
- Uwchsgilio'r gweithlu gan arwain at gynnydd a fydd o leiaf 3% o'r gyfran o'r gweithlu (uwchlaw lefelau 2008) yn y Categorïau Galwedigaethol Safonol (SOC) 1-3;
- Diwylliant lleol llewyrchus gyda'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn sefydlogi ar y lefel gyfredol gyda rhwng 60-65% o'r boblogaeth (3+ oed) yn gallu siarad Cymraeg.

**D - Argymhelliad**

- Nodi a chymeradwyo cynnwys yr Adroddiad ar y Canlyniadau Posibl a'r Mesurau Perfformiad.
- Cytuno y dylid mabwysiadu'r Adroddiad ar y Canlyniadau Posibl a'r Mesurau Perfformiad fel sail tystiolaeth ac arfer dda ar gyfer unrhyw bolisïau y bydd CSYM yn eu llunio yn y dyfodol megis y Cynllun Cymunedol a'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Rhys Lloyd Jones**
**Swyddog Datblygu Prosiect – Datblygu Economaidd**
**07/09/2011**

| **Atodiadau:** |
| --- |
| Atodiad A – Canlyniadau Posibl a Mesurau Perfformiad – Adroddiad Terfynol (Awst 2011) |

| **Papurau Cefndirol:** |
| --- |
| Dim. |

# Rhaglen Ynys Ynni Môn

*Canlyniadau Posibl a Mesurau Perfformiad*



## Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad Terfynol

ESYS *Consulting Ltd*
**Economics and Business**
Warwick CV35 9JS
01789 47 00 66

**Awst 2011**

# cynnwys


**1. Cyflwyniad** **1**

**2. Y Prif Heriau i Ynys Môn** **9**

**3. Rhagamcanion Achos Sail** **27**

**4. Dadansoddi Senarios** **31**

**5. Effeithiau Ychwanegol Net Ynys Ynni** **38**

**6. Effeithiau ar y Farchnad Lafur** **42**

**7. Canlyniadau Ynys Ynni** **49**

**8. Asesu Risg** **54**

**9. Dangosyddion Perfformiad** **58**

**10. Casgliadau** **61**

**Atodiadau**

A1 Y Prif Dybiaethau 2

A2 Toriadau'r Sector Cyhoeddus 5

A3 Nifer Swyddi Ynys Ynni 10

# cyflwyniad

Comisiynwyd Esys Consulting Ltd gan Gyngor Sir Ynys Môn i adolygu ac asesu, drwy ganlyniadau mesuradwy, ar ffurf dangosyddion perfformiad, y targedau a'r canlyniadau posibl sy'n sail i Fframwaith Etifeddiaeth ar gyfer cynlluniau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Ynys Ynni. Bydd y Fframwaith hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r problemau strwythurol, economaidd a chymdeithasol hirdymor sy'n wynebu Ynys Môn drwy fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thechnoleg carbon isel.

Trafodir y problemau sy'n wynebu economi Ynys Môn yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn (**->y prif heriau i Ynys Môn**). Un o'r problemau hyn yw'r ddibyniaeth barhaus ar weithgynhyrchu (technoleg gymharol syml), yn enwedig prosesu bwyd. Mae'r nifer sy'n cael eu cyflogi ym maes gweithgynhyrchu wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y dirwasgiad, o ganlyniad i gau Alwminiwm Môn a cholli swyddi gwerthfawr. Mae'r gwaith o ddatgomisiynu gorsaf niwclear bresennol yr Wylfa wedi cael ei ohirio, ond bydd hyn yn dal i arwain at golli rhagor o swyddi gwerthfawr ar yr ynys.

Mae'r anawsterau hyn yn deillio'n rhannol o'r ffaith fod Ynys Môn ar y cyrion. Yn wir, o'r holl economïau sydd yn y DU, ychydig iawn sy'n fwy ar y cyrion nag Ynys Môn, ac mae'r ffaith ei bod ar wahân i'r tir mawr (er ei bod yn cael ei gwasanaethu gan yr A55 a chysylltiadau'r porthladd i Iwerddon) yn gwneud iddi deimlo'n bellach ar y cyrion. Efallai nad colli llawer o swyddi gyda'i gilydd, o reidrwydd, yw'r prif anhawster sy'n wynebu economïau fel un Ynys Môn sydd ar y cyrion, ond yn hytrach, y gallu i greu swyddi newydd – yn enwedig mewn sectorau gwerth uwch. Yn hyn o beth, mae cau'r Wylfa ac Alwminiwm Môn yn ergyd fawr i economi Môn. I ryw raddau, fodd bynnag, y cyfan y mae'r digwyddiadau hyn wedi ei wneud yw ymestyn y duedd hirdymor i fod yn fwy dibynnol ar ardaloedd eraill – yn enwedig yr arfordir / Ardal Menai – er mwyn creu swyddi newydd. Yn y cyfamser, mae dwysedd cyflogaeth ar yr ynys yn dal yn gymharol isel. Ar sawl cyfrif, mae trywydd presennol economi Ynys Môn yn dangos holl nodweddion economi farwaidd â dirywiad strwythurol hirdymor.

Mae'r dirywiad economaidd wrth gwrs yn cael effeithiau ehangach ar y gymuned. Mae'n gadael pocedi o amddifadedd ar ei ôl, yn enwedig yng Nghaergybi. Mae prinder swyddi hefyd yn amlygu ei hun ar ffurf

symudiadau demograffig, ac mae tuedd i'r elfennau hynny o'r gweithlu sydd â mwy o sgiliau a chymhelliant – yn enwedig pobl ifanc – symud o'r ynys.

Mae hyn yn ei dro yn effeithio ar gymeriad demograffig a diwylliannol cyffredinol yr ynys, ac mae'n bosibl y gallai gael effaith sylweddol ar yr iaith Gymraeg yn yr hirdymor.

Yn y cyfamser, mae dirywiad yr economi leol yn tueddu i olygu bod angen i drigolion yr ynys deithio'n bellach i gael gwaith, ac mae tuedd yn sgil hyn i gyfran gynyddol o'r stoc dai gael ei defnyddio gan gymudwyr mwy cyfoethog, mewnfudwyr a phobl sydd wedi ymddeol. Mae tuedd i hyn yn ei dro ychwanegu at broblemau tai fforddiadwy, gan roi mwy o bwysau ar bobl iau i symud o'r ardal.

Mae'r rhain yn broblemau anodd sy'n gydgysylltiedig. Ond mae cyfleoedd yn codi hefyd, yn fwyaf arbennig y cyfle unigryw sy'n deillio o fuddsoddi mewn gorsaf niwclear newydd arfaethedig yn yr Wylfa, a chyfleoedd cysylltiedig i ddatblygu economi carbon isel, a archwiliwyd mewn gwaith a gwblhawyd i'r Cyngor yn ddiweddar gan URS[1]. Gellid dadlau bod hwn yn gyfle unigryw i fynd i'r afael â rhai o'r anawsterau sy'n anorfod yn gysylltiedig â'r economïau hynny yn Ewrop sy'n fwy ar y cyrion, lle mae pellter daearyddol o farchnadoedd yn effeithio ar allu cyffredinol i gystadlu ac ar fentergarwch.

Er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan y posibilrwydd o adeiladu gorsaf niwclear newydd (a datblygiadau mawr eraill sy'n gysylltiedig ag ynni) mae'r Cyngor Sir wedi datblygu 'Rhaglen Ynys Ynni'. Gweledigaeth y Rhaglen yw creu canolfan ragoriaeth fyd-enwog ar gyfer ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel.

Fel rhan o'r rhaglen hon, mae Fframwaith yn cael ei ddatblygu er mwyn nodi canlyniadau, risgiau ac effeithiau posibl - cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol – lliniaru sgil-effeithiau a sicrhau bod y weledigaeth uchelgeisiol hon yn cael ei chyflawni.

**Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn**

Bwriad Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn yw denu swyddi newydd, o safon uchel sy'n gysylltiedig ag ynni i Ynys Môn yn ystod y ddau ddegawd nesaf. Mae'r Rhaglen, a lansiwyd yn ffurfiol gan y Dirprwy Brif Weinidog ar y pryd, Ieuan Wyn Jones AC, ym Mehefin 2010, yn cael ei chydgysylltu gan Uned Datblygu Economaidd Cyngor Sir Ynys Môn.

[1] Ffynhonnell: Astudiaeth Ynys Ynni URS

Gweledigaeth Ynys Ynni yw creu canolfan ragoriaeth fyd-enwog ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel.

Mae'r amcanion yn cynnwys:

1. **Cynhyrchu** – Buddsoddi mewn dulliau newydd o gynhyrchu ynni carbon isel er mwyn helpu i sicrhau dyfodol sefydlog ym maes ynni i Gymru
2. **Arddangos** – Sefydlu cyfleusterau o'r radd flaenaf er mwyn sicrhau bod Ynys Môn yn cael ei gweld fel lleoliad blaenllaw ar gyfer arddangos ac arloesi ym maes ynni carbon isel
3. **Gwasanaethu** – Sicrhau bod cwmnïau a phobl leol yn elwa ac yn manteisio ar gyfleoedd sy'n deillio o fuddsoddiadau newydd mewn ynni.

Prif atyniad Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn yw'r posibilrwydd o ddatblygu gorsaf niwclear newydd yn yr Wylfa, ond mae hefyd yn gobeithio denu cwmnïau a fydd yn datblygu technolegau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys ynni gwynt (ar y tir ac ar y môr), llanw a biomas, yn ogystal â niwclear.

*Gorsaf bŵer niwclear yr Wylfa*

Mae gorsaf bŵer niwclear bresennol yr Wylfa yn gallu cynhyrchu bron i 1GW o drydan, ac mae'n cyflenwi trydan llwyth sylfaenol i grid cenedlaethol y DU. Disgwylir y bydd yr orsaf yn cau yn niwedd 2010, ond mae estyniad i'w hoes, hyd ddiwedd 2012, wedi ei gymeradwyo erbyn hyn.

Yn y cyfamser, mae gorsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig, Wylfa B, yn cael ei chynllunio gan Horizon Nuclear Power. Menter ar y cyd yw hon rhwng y cwmni ynni Almaenig mawr RWE ac EON. Mae Horizon wedi cadarnhau y bydd yn gwneud cais am adweithydd niwclear newydd yn yr Wylfa yn 2013.

Mae Horizon yn bwriadu comisiynu gorsaf newydd yn Nhrwyn yr Wylfa, ger safle presennol Wylfa A, a chynhyrchu tua 3.2 GW o drydan. Mae'n cynnal trafodaethau gyda dau gwmni rhyngwladol, cwmni Westinghouse o Unol Daleithiau America a chwmni Areva o Ffrainc, sydd wrthi'n sicrhau trwyddedau ar gyfer eu hadweithyddion ym Mhrydain.

Ceir manylion pellach am botensial economaidd yr orsaf yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn (**->gweler rhagamcanion achos sail).**

*Ynni adnewyddadwy*

Elfen bwysig arall o'r Rhaglen Ynys Ynni yw potensial aruthrol ynni gwynt, ac er bod tair fferm wynt ar yr ynys yn barod, mae cynlluniau i adeiladu fferm wynt fawr 15km allan i'r môr oddi ar arfordir gogledd Môn. Mae trwydded Parth Môr Iwerddon wedi cael ei rhoi i Centrica Renewable Energy a gallai gynhyrchu tua 4.2 GW o drydan.

Gallai'r ynys weithredu fel canolfan ar gyfer gweithgynhyrchu a chynnal isadeiledd ynni gwynt, gan gynnwys y tyrau a'r llafnau, oherwydd cyfleusterau'r porthladd yng Nghaergybi.

Mae fferm wynt anferth 750 MW eisoes yn cael ei hadeiladu allan yn y môr, tua 12-15 milltir i'r dwyrain o arfordir Môn. Bydd tua 250 o dyrbinau gwynt yn cael eu gosod yn y fferm wynt hon, sef Gwynt-y-Môr. Cymeradwywyd y prosiect hwn gan Adran Ynni a Newid Hinsawdd Llywodraeth y DU.

Math arall o ynni adnewyddadwy yw ynni'r llanw, ac mae menter ar y cyd rhwng cwmni RWE npower renewable ac MCT, sef Seagen Wales, yn ystyried sefydlu fferm dyrbinau gwynt 10.5 MW a fydd yn defnyddio ynni'r llanw yng nghefn Langdon rhwng Ynysoedd y Moelrhoniaid a Thrwyn y Gader yng ngogledd-orllewin Môn. Byddai saith tyrbin Seagen 1.5 MW yn cael eu gosod ar wely'r môr mewn darn tua 25 medr o hyd sydd â cherrynt cryfach nag unman arall bron o gwmpas arfordir y DU. Mae cais cynllunio wedi ei gyflwyno'n barod ar gyfer y datblygiad hwn.

Ffynhonnell ynni arall sy'n cael ei hystyried yw biomas, ac mae Anglesey Aluminium Metal Renewables Limited wedi gwneud cais am ganiatâd i adeiladu gwaith biomas 300 MW ar hen safle'r gwaith alwminiwm y tu allan i Gaergybi. Mae glanfa ym mhorthladd cyfagos Caergybi i dderbyn llongau cargo wedi eu cynllunio'n benodol. Byddai'r rhain yn mewnforio peledi a naddion coed o wreiddiau a changhennau fyddai'n cael eu cynhyrchu mewn gweithfeydd coed sy'n cael eu rheoli'n ofalus yng Ngogledd America.

Yn Hydref 2009 cyflwynodd y cwmni gais i Lywodraeth y DU am ganiatâd i adeiladu gorsaf bŵer, dan adran 36 o'r Ddeddf Drydan, fel rhan o brosiect a ddylai yn ôl pob sôn fod yn garbon niwtral erbyn diwedd ei oes.

*Gwahanol rannau'r Rhaglen*

Canfu astudiaeth a gwblhawyd yn ddiweddar gan y Cyngor[2] fod angen canolbwyntio ar nifer cyfyngedig o gyfleoedd a all ddarparu'r 'cyfuniad' priodol o uchelgais, effaith a phroffil.

Mae prif elfennau Fframwaith Ynys Ynni fel a ganlyn:

- *Tymor byr*: Gosodiadau biomas bach a mawr a safleoedd ynni ategol, camau effeithlonrwydd ynni a microgynhyrchu. Trafodaethau cychwynnol er mwyn sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd yn deillio o ynni gwynt y môr, Rownd 3, ym Mharth Môr Iwerddon.
- *Tymor canolig i hir*: Adeiladu gorsaf newydd hyd at 3.2 GW yn yr Wylfa, sefydlu prosiect ynni'r llanw yn Ynysoedd y Moelrhoniaid, canolfan ynni

[2] Energy Island: Potential Opportunities and Economic Impacts, URS. Mai 2010.

gwynt y môr ym Mhorthladd Caergybi ac ailosod ffermydd gwynt sy'n bodoli'n barod ar y tir.

- *Tymor hir*: Ehangu ynni'r llanw a datblygu'r economi hydrogen.

*Canlyniadau Allweddol yn deillio o'r Rhaglen*

Mae'r dadansoddiad o'r canlyniadau'n awgrymu y gall y Rhaglen arwain at newid sylweddol, o ran ei chyfraniad i economi, cymunedau ac amgylchedd yr ynys, gan gynnwys:

- Cynnydd o 10-13% mewn gwerth ychwanegol crynswth (GYC) o gymharu â'r achos sail / tuedd Cymru erbyn 2025
- Creu hyd at 2,000 o swyddi ychwanegol net erbyn 2025, ynghyd â hyd at 6,000 o swyddi adeiladu ychwanegol
- Lleihau nifer y bobl ifanc sy'n symud o'r ardal – gyda'r ganran o'r boblogaeth gyfan sydd rhwng 16 a 24 oed yn sefydlogi ar 10%
- Lleihad mewn cyfraddau diweithdra, gan ddechrau mynd i'r un cyfeiriad â chyfradd Cymru (a disgyn yn is na hi o bosibl)
- Gwella sgiliau'r gweithlu gan arwain at gynnydd o 3 % o leiaf (o gymharu â 2008) yn y gyfran o'r gweithlu ar gyfer SOC 1-3
- Y gyfran sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn gostwng i fod yr un fath â chyfran Cymru
- Disgwylir i gyfraddau gweithgarwch godi i fod o leiaf 1% yn uwch na chyfraddau Cymru
- Disgwylir i ddiweithdra hirdymor ostwng i gyfartaledd Cymru gyfan
- Dylai'r Rhaglen hefyd helpu i gadw diwylliant lleol ffyniannus, fel bod cyfran y siaradwyr Cymraeg yn aros fel y mae, gyda rhwng 60 a 65 y cant o'r boblogaeth (3 oed a throsodd) yn gallu siarad Cymraeg
- O ganlyniad i fuddsoddiad yn y stoc dai bydd yr angen am dai, y ceir tystiolaeth ohono yn adran dai y Mynegai Amddifadedd Lluosog, yn dangos gwelliant amlwg o gymharu â Chymru. Dylai hyn gael ei adlewyrchu hefyd mewn marchnad dai fwy bywiog gyda data prisiau tai yn dangos gwelliant cyson o gymharu â Chymru
- Yn bwysig iawn, gall y Rhaglen wneud cyfraniad pwysig i ddyfodol carbon isel, drwy ddylanwadu ar ymddygiad ac agweddau pobl. Felly, disgwylir y bydd allyriadau carbon yn gostwng, o fod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, i fod yn is nag ef.

**Amcanion yr astudiaeth**

Pwrpas cyffredinol yr astudiaeth yw cyfrannu tuag at ddatblygiad y Fframwaith Ynys Ynni, er mwyn sicrhau ei fod yn realistig, yn gyraeddadwy ac, yn bwysig iawn, yn fesuradwy.

Mae hyn yn golygu bod angen ystyried sut y byddai economi Ynys Môn yn edrych heb y cydrannau ynys ynni pwysig fel sail (h.y. yr achos gwrthffeithiol) er mwyn nodi'r effeithiau economaidd tebygol. Defnyddir y dadansoddiad hwn i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y gwaith o asesu'r canlyniadau disgwyliedig.

Gwneir hyn yn bennaf drwy ddefnyddio model economaidd Esys **(-> sy'n cael ei ddisgrifio'n fanylach yn yr adran methodoleg isod**), sydd â'r fantais ychwanegol o fod wedi cael ei ddefnyddio'n barod fel sail i ddadansoddiad ehangach o newidiadau is-ranbarthol yn yr economi a'r farchnad lafur. Mae hyn yn hwyluso dadansoddiad meintiol o ganlyniadau i ryw raddau, a hefyd yn darparu cyd-destun ehangach er mwyn asesu arwyddocâd ehangach yr effeithiau hyn.

Mae prif elfennau'r astudiaeth yn cynnwys y canlynol:

- Diweddaru'r gwaelodlin economaidd
- Paratoi rhagamcanion cyflogaeth – gyda / heb Ynys Ynni
- Asesu'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen
- Manylu ynglŷn â'r effeithiau tebygol ar y farchnad lafur
- Nodi'r dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn mesur cynnydd mewn perthynas â chanlyniadau dymunol mewn Fframwaith Etifeddiaeth.

**Methodoleg**

Mae'r astudiaeth wedi cyfuno ystyriaethau economaidd a gofodol â'r gwaith o ddatblygu Model Cyflogaeth. Mae'r diagram isod yn dangos prif gydrannau'r Model Rhagamcanion Cyflogaeth, sy'n defnyddio Microsoft Excel, a ddatblygwyd ar gyfer yr astudiaeth hon.

Mae elfen fewnbwn y model yn cyfuno'r nodweddion isod:

1. Lefelau cyflogaeth hanesyddol yn ôl wardiau Ystadegau Ardaloedd Cyfrifiad 2007 a dadansoddiad diwydiannol a ddewiswyd (yn seiliedig ar Ddosbarthiadau Diwydiannol Safonol).

   Dylid nodi bod y ffigurau cyflogaeth wedi eu codi o ddata Ymchwiliad Busnes Blynyddol sy'n seiliedig ar weithleoedd a'u trosi i ffigurau Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl), gan gyfri pob swydd ran-amser fel

0.5 o swydd amser llawn, felly CALl = Swyddi Amser Llawn + ½ [Swyddi Rhan-amser]. Diweddarwyd y Model i gynnwys data 2009.


2. Fectorau cyfradd twf eraill o gyfraddau (canrannau y flwyddyn) ar gyfer y dosbarthiadau diwydiannol.

3. Effeithiau senarios – gall y rhain fod yn nifer absoliwt o swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer addasu nifer rhagamcanol y swyddi, er mwyn adlewyrchu pethau fel achosion o gau/agor sy'n digwydd unwaith yn unig, neu fel addasiad yn ôl canran i gyfraddau twf, er mwyn adlewyrchu newidiadau megis polisïau sydd â'r nod o gynyddu twf mewn sectorau diwydiannol penodol.

Mae'r model yn defnyddio'r wybodaeth hon a thybiaethau sylfaenol er mwyn rhagamcanu ffigurau cyflogaeth CYFWERTH AG AMSER LLAWN YN Y GWEITHLE ar gyfer clystyrau daearyddol a diwydiannol wedi eu diffinio gan ddefnyddwyr, o 2008 i 2024. Po bellaf i'r dyfodol yw'r rhagamcanion sy'n cael eu gwneud, po fwyaf o ansicrwydd sy'n gysylltiedig â hwy.

Dylid nodi nad cynrychioli beth FYDD yn digwydd yn y dyfodol y mae'r rhagamcanion, ond yn hytrach – ac ystyried y tueddiadau cyffredinol – beth allai ddigwydd heb ymyriadau. Dylid eu defnyddio fel canllaw wrth lunio polisïau ac nid fel rhagamcan pendant o'r hyn fydd yn digwydd yn y dyfodol.

*Y Model Cyflogaeth*




*(DS: Gwaelodlin wedi ei ddiweddaru i ddefnyddio data 2009 ac nid 2008 fel y nodir isod)*

*Gwaelodlin Cyflogaeth*

Mae'r gwaelodlin yn cynnwys data cyflogaeth, seiliedig ar y gweithle, ar lefel wardiau ar gyfer yr is-ranbarth yn 2009 ar gyfer holl godau SIC 1 digid 2007. Mae'r data wedi eu trosi i ffigurau Cyfwerth ag Amser Llawn (CALl = ALl + 1/2RhA).

*Cyfraddau Twf*

Er mwyn rhagamcanu cyflogaeth yn y dyfodol, mae angen gwneud tybiaethau ynglŷn â'r gyfradd dwf flynyddol ar gyfer sectorau unigol yn yr ardal.

**Strwythur yr Adroddiad**

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i drefnu fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adran 2 | yn nodi'r prif heriau sy'n wynebu economi Ynys Môn |
| Adran 3 | yn rhoi manylion am y rhagamcanion achos sail (y gwrthffeithiol) |
| Adran 4 | yn archwilio nifer o senarios sy'n gysylltiedig â'r achos sail, gan ganolbwyntio ar elfennau o'r Fframwaith Ynys Ynni |
| Adran 5 | yn asesu effeithiau 'ychwanegol net' rhaglen Ynys Ynni o gymharu â'r achos sail |
| Adran 6 | yn amlinellu'r effeithiau posibl ar y farchnad lafur |
| Adran 7 | yn adolygu'r canlyniadau a amlinellwyd gan y Cyngor ar gyfer Fframwaith Ynys Ynni Ynys Môn ochr yn ochr â'r dadansoddiad a wnaethpwyd |
| Adran 8 | yn trafod y prif risgiau i'w hystyried wrth geisio cyflawni'r amcanion o fewn fframwaith asesu risg a lliniaru strwythuredig |
| Adran 9 | yn nodi dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn monitro'r gwaith o weithredu'r fframwaith ynys ynni. |

# y prif heriau i Ynys Môn

Mae'r adran hon yn cynnwys adolygiad byr o'r data gwaelodlin ar gyfer Ynys Môn, gan ganolbwyntio ar ei strwythur a'i pherfformiad economaidd dros gyfnod hwy, yn ogystal â nodweddion cymdeithasol amlwg. Mae'r dadansoddiad a gyflwynwyd yn defnyddio ffynonellau data eilaidd – ABI, BRES ac ystadegau eraill gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn bennaf, yn ogystal ag astudiaethau allweddol o economi Ynys Môn. Wrth gyflwyno darlun o'r datblygiad tymor hwy mae'r adran hon yn ceisio cyflwyno adroddiad ystyrlon, yn ogystal â throsolwg o'r prif heriau hirdymor sy'n wynebu'r economi leol, y bwriedir i'r rhaglen Ynys Ynni fynd i'r afael â hwy.


Mae'r data gwaelodlin yn berthnasol iawn hefyd er mwyn darparu'r CYD-DESTUN ar gyfer effeithiau'r rhaglen Ynys Ynni – a darparu gwybodaeth ar gyfer asesiad ohoni – yn ogystal â darparu gwybodaeth o bosibl ar gyfer asesiad o BERTHNASEDD a chwmpas ymyriadau.

## Strwythur Diwydiannol

Mae gan Ynys Môn strwythur diwydiannol anffafriol, sy'n dibynnu llawer iawn ar weithgareddau cynhyrchu a thrafnidiaeth, gan gynnwys crynodiadau o weithgynhyrchu gwerth cymharol isel.

***Mae gan Ynys Môn economi wahanol â mwy o ddibyniaeth ar weithgynhyrchu***

Mae'n amlwg bod gan Ynys Môn strwythur economaidd wahanol o gymharu â gweddill yr is-ranbarth. Mae'r economi leol yn gogwyddo llawer mwy tuag at weithgareddau cynhyrchu – gweithgynhyrchu, cynhyrchu trydan, adeiladu a thrafnidiaeth.




Mae gan hyn oblygiadau o ran olrhain drwy effaith y dirwasgiad, sydd wedi cael effeithiau sectoraidd cryf, er bod y sectorau bregus wedi newid gyda threigl amser.

**Proffil o Economi Ynys Môn 2009**

**Swyddi Cyfwerth â Llawn Amser ar Ynys Môn**


| **Diwydiant** | **2008** | **2009** |
|---|---|---|
| A : Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | Atal. Medd. | <50 |
| B : Mwyngloddio a chwarela | | <50 |
| C : Gweithgynhyrchu | 2,800 | 2,400 |
| D : Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | Atal. Caled | 700 |
| E : Rheoli cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, gwastraff a gweithgareddau adfer | 200 | 200 |
| F : Adeiladu | 1,100 | 1,100 |
| G : Mas. gyfanwerthu ac adwerthu; atgyweirio cerbydau a beiciau modur | 2,400 | 2,600 |
| H : Trafnidiaeth a storio | 1,100 | 1,300 |
| I : Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd | 1,100 | 1,200 |
| J : Gwybodaeth a chyfathrebu | 100 | 100 |
| K : Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 100 | 200 |
| L : Gweithgareddau eiddo tiriog | 100 | 100 |
| M : Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 900 | 800 |
| N : Gweithgareddau gweinyddiaeth a gwasanaethau cymorth | 300 | 600 |
| O : Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 1,100 | 1,200 |
| P : Addysg | 1,400 | 1,500 |
| Q : Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol | 1,800 | 1,600 |
| R : Y celfyddydau, adloniant a hamdden | 200 | 200 |
| S : Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 300 | 200 |
| Cyfanswm y Golofn | **15,600** | **16,000** |

Ffynhonnell: Cofrestr Busnes a'r Arolwg Cyflogaeth, ONS. Data wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf fel sy'n ofynnol.
Ataliad caled = atal data y tybir y byddent yn 'ddadlennol'
Ataliad meddal = atal er mwyn rhwystro data dadlennol rhag cael eu casglu.



***Yn y sector gweithgynhyrchu, dengys y dadansoddiad bod cyfran uchel o'r swyddi'n swyddi â gwerth cymharol isel. Mae prosesu bwyd yn bwysig iawn.***

Dangosodd dadansoddiad blaenorol pa mor fregus yw economi sylfaenol Ynys Môn.[3] Mae hyn yn deillio o'i strwythur diwydiannol cyffredinol, ond hefyd o natur benodol yr is-sectorau sy'n cael eu cynrychioli. Er enghraifft, mae'r maes gweithgynhyrchu wedi bod yn cynnwys cynrychiolaeth gref o weithgareddau technoleg ganolig/isel ac isel, ac mae'r sefyllfa honno'n bodoli o hyd. Mae'r map isod yn dangos pwysigrwydd gweithgynhyrchu bwyd yn ne Môn yn 2004. Mae cyflogaeth yma yn aml yn gymharol fregus ac mae'r cyflogau hefyd yn gymharol isel.




Cartograffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded 100017916. Hawlfraint y Goron 2006

[3] Llywodraeth Cynulliad Cymru. *North West Wales Economic Futures*, 2006.


***Mae gan Ynys Môn hefyd lawer o weithgareddau gwerth uchel - cynhyrchu ynni niwclear yn fwyaf arbennig – sy'n gwneud yr economi'n un â gwerth cymharol uchel ar y cyfan***

Yn yr un modd, mae gan yr economi leol hefyd nifer o swyddi â gwerth ychwanegol sylweddol, sy'n golygu, gyda'i gilydd, bod y gwerth ychwanegol crynswth cyfartalog ar gyfer pob gweithiwr ym Môn yn rhesymol ar y cyfan.

Mae pwysigrwydd y swyddi gwerth ychwanegol uchel i'w weld yn y map isod, sydd wedi dyddio, yn dangos pwysigrwydd cyflogaeth yn yr Wylfa a'r swyddi gwerth cymharol uchel yn Alwminiwm Môn, cyn iddo gau yn 2010.

Mae hefyd yn dangos pa mor fregus yw'r sefyllfa, oherwydd bod cymaint o ddibyniaeth ar yr un gwaith hwn mewn ardal gymharol anghysbell o ogledd Môn sydd ar y cyrion. Pwysleisiwyd hyn gyda'r cynlluniau i ddatgomisiynu'r Wylfa yn 2013, ychydig yn ddiweddarach nag a fwriadwyd yn wreiddiol.

**Astudiaeth 'North West Wales Economic Futures'**
Nifer Swyddi 2004 yn ôl Sector Diwydiannol (Cyfwerth ag Amser Llawn)
Alwminiwm a Thrydan




Ffynhonnell: ESYS

Cartograffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded 100017916. Hawlfraint y Goron 2006

### *Fodd bynnag, gan ei bod yn economi FACH o gymharu â'r boblogaeth, mae gwerth ychwanegol crynswth (GYC) y pen Ynys Môn yn isel ac mae'n dibynnu ar ardaloedd eraill am swyddi*

Mae GYC y pen o'r boblogaeth, neu fel mynegai (ar gyfer y DU yn ei chyfanrwydd), yn fesur da o ffyniant lleol a gwelliant/dirywiad economaidd perthynol. Yn anffodus, mae mesurau is-ranbarthol o GYC yn cael eu rhyddhau flynyddoedd yn ddiweddarach – felly mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn ymwneud â 2008. Mae canlyniadau rhanbarthol 2009 wedi cael eu cyhoeddi – mae'r rhain yn dangos bod economi Cymru wedi lleihau i £44.5 biliwn. Roedd cyfran y lleihad yn GYC y DU yn debyg. Gostyngodd GYC y pen yng Nghymru yn 2009 hefyd i £14,842. Mae'r tabl isod yn dangos patrwm GYC Ynys Môn ac yn dangos bod perfformiad cymharol Ynys Môn, er ei fod wedi gwella, yn dal yn isel iawn ar ddim ond 55% o lefel y DU – yn draddodiadol, y GYC y pen isaf yn unrhyw un o awdurdodau'r DU.

**Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) is-ranbarthol yn ôl rhanbarthau economaidd Cymru**
**Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru**

| **Blwyddyn** | | **1999** | **2000** | **2001** | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mesur** | **Ardal** | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm £ miliwn | Cymru | 30,912 | 32,068 | 33,658 | 35,355 | 37,299 | 38,993 | 40,485 | 42,424 | 44,541 | 45,514 |
| | Y Gogledd | 7,041 | 7,234 | 7,556 | 7,918 | 8,297 | 8,639 | 8,928 | 9,313 | 9,711 | 9,852 |
| | Y Canolbarth | 1,298 | 1,351 | 1,421 | 1,526 | 1,619 | 1,665 | 1,662 | 1,682 | 1,699 | 1,705 |
| | Y De-orllewin | 8,015 | 8,255 | 8,596 | 9,021 | 9,551 | 10,113 | 10,681 | 11,293 | 11,899 | 12,151 |
| | Y De-ddwyrain | 14,558 | 15,229 | 16,084 | 16,890 | 17,831 | 18,576 | 19,214 | 20,136 | 21,231 | 21,805 |
| | ***Ynys Môn*** | ***479*** | ***509*** | ***551*** | ***589*** | ***631*** | ***664*** | ***693*** | ***731*** | ***764*** | ***780*** |
| | Gwynedd | 1,066 | 1,099 | 1,173 | 1,263 | 1,355 | 1,424 | 1,472 | 1,530 | 1,586 | 1,620 |
| | Conwy a Sir Ddinbych | 1,752 | 1,806 | 1,884 | 1,980 | 2,102 | 2,218 | 2,298 | 2,388 | 2,485 | 2,543 |
| | Sir y Fflint a Wrecsam | 3,744 | 3,820 | 3,948 | 4,086 | 4,209 | 4,333 | 4,465 | 4,664 | 4,876 | 4,909 |
| £ y pen | Cymru | 10,657 | 11,032 | 11,565 | 12,115 | 12,735 | 13,247 | 13,723 | 14,323 | 14,966 | 15,222 |
| | Y Gogledd | 10,702 | 10,937 | 11,369 | 11,879 | 12,405 | 12,867 | 13,292 | 13,835 | 14,365 | 14,532 |
| | Y Canolbarth | 10,330 | 10,708 | 11,245 | 12,004 | 12,643 | 12,905 | 12,815 | 12,911 | 12,974 | 12,952 |
| | Y De-orllewin | 9,462 | 9,736 | 10,129 | 10,588 | 11,143 | 11,737 | 12,371 | 13,026 | 13,642 | 13,861 |
| | Y De-ddwyrain | 11,463 | 11,978 | 12,659 | 13,273 | 13,988 | 14,496 | 14,948 | 15,590 | 16,371 | 16,724 |
| | ***Ynys Môn*** | ***7,050*** | ***7,489*** | ***8,121*** | ***8,686*** | ***9,269*** | ***9,719*** | ***10,121*** | ***10,651*** | ***11,110*** | ***11,333*** |
| | Gwynedd | 9,159 | 9,418 | 10,039 | 10,770 | 11,505 | 12,033 | 12,465 | 12,928 | 13,378 | 13,664 |
| | Conwy a Sir Ddinbych | 8,768 | 8,975 | 9,292 | 9,708 | 10,263 | 10,769 | 11,163 | 11,583 | 11,983 | 12,218 |
| | Sir y Fflint a Wrecsam | 13,677 | 13,863 | 14,244 | 14,722 | 15,130 | 15,541 | 15,988 | 16,657 | 17,332 | 17,382 |
| Mynegai (Y DU=100) | Cymru | 77.3 | 77.1 | 77.1 | 76.7 | 76.2 | 75.5 | 75.7 | 75.2 | 74.6 | 74.1 |
| | Y Gogledd | 77.7 | 76.4 | 75.8 | 75.2 | 74.2 | 73.3 | 73.4 | 72.6 | 71.6 | 70.7 |
| | Y Canolbarth | 75 | 74.8 | 75 | 76 | 75.7 | 73.6 | 70.7 | 67.8 | 64.7 | 63.1 |
| | Y De-orllewin | 68.7 | 68.1 | 67.5 | 67 | 66.7 | 66.9 | 68.3 | 68.4 | 68 | 67.5 |
| | Y De-ddwyrain | 83.2 | 83.7 | 84.4 | 84 | 83.7 | 82.6 | 82.5 | 81.8 | 81.6 | 81.4 |
| | ***Ynys Môn*** | ***51.2*** | ***52.4*** | ***54.1*** | ***55*** | ***55.5*** | ***55.4*** | ***55.8*** | ***55.9*** | ***55.4*** | ***55.2*** |
| | Gwynedd | 66.5 | 65.8 | 66.9 | 68.2 | 68.9 | 68.6 | 68.8 | 67.8 | 66.7 | 66.5 |
| | Conwy a Sir Ddinbych | 63.6 | 62.7 | 61.9 | 61.5 | 61.4 | 61.4 | 61.6 | 60.8 | 59.7 | 59.5 |
| | Sir y Fflint a Wrecsam | 99.3 | 96.9 | 94.9 | 93.2 | 90.6 | 88.6 | 88.2 | 87.4 | 86.4 | 84.6 |

Sylwer: O ran preswylfa (nid gweithle) mae Ynys Môn wedi gwneud yn bur dda o gymharu â Chymru. Er hyn, mae tuedd i gymudwyr cymharol gefnog fyw ar yr ynys a gweithio yn rhywle arall, gan adlewyrchu'r pwynt canolog a wnaethpwyd uchod bod economi'r ynys yn gymharol fach, sy'n egluro'n rhannol hefyd pam y mae hunangyflogaeth yn uchel.

## Perfformiad Economaidd

Mae problemau strwythurol sylfaenol economi Ynys Môn, a oedd i'w gweld yn amlwg cyn y dirwasgiad, yn cael eu hadlewyrchu mewn agweddau ar ei pherfformiad yn ystod y blynyddoedd diweddar. Efallai nad colli swyddi yw'r broblem fwyaf, ond yn hytrach yr anallu i fanteisio ac arallgyfeirio i sectorau cyflogaeth lle gwelir twf newydd. Mae hyn yn nodweddiadol i ryw raddau o ardaloedd ar y cyrion lle mae gweithgarwch entrepreneuraidd yn tueddu i fod yn is a phwysau'r farchnad yn wannach ar y cyfan.

***Mae hanes datblygu economaidd diweddar 2004-2008 yn pwysleisio problemau perfformiad tymor hwy, gydag Ynys Môn yn gweld dirywiad yn ystod cyfnod o dwf cyffredinol***

Mae newid mewn cyflogaeth yn ystod y cyfnod 2004 – 2008 yn dangos bod perfformiad yr is-ranbarth yn gyffredinol yn well na pherfformiad Cymru, gyda chynnydd o 5.1% yn nifer y swyddi. Fodd bynnag, er mai Gwynedd oedd â'r perfformiad gorau, a Chonwy wedyn, gwelodd Ynys Môn ostyngiad mewn gwirionedd yn nifer y swyddi (-1.2%). Mae hyn yn adlewyrchu rhai o'r gwendidau yn ei strwythur economaidd sylfaenol y tynnwyd sylw atynt yn nadansoddiad 'Economic Futures' 2006 ac, yn fwyaf penodol, y ddibyniaeth ar weithgareddau gweithgynhyrchu â gwerth cymharol isel.

| < = gwerthoedd llai na +/- 50 | **Cymru** | **Gog.orll. Cymru** | **Ynys Môn** | **Conwy** | **Gwynedd** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sectorau arwyddocaol:** | **D,G,N** | **G,N,H&M** | **D,G,N** | **G,N,H** | **G,N,H&M** |
| **Newid Absoliwt mewn swyddi CALl 2004 i 2008 (talgrynnwyd i'r 100 agosaf):** | | | | | |
| A+: Amaeth (yn cynnwys 0100) | 4,600 | 400 | 100 | 100 | 200 |
| B : Pysgota | 200 | < | < | < | < |
| C : Mwyngloddio a chwarela | 200 | 300 | < | < | 300 |
| D : Gweithgynhyrchu | -15,100 | -600 | -200 | -400 | < |
| E : Cyflenwi trydan, nwy a dŵr | -1,100 | -100 | < | 100 | -200 |
| F : Adeiladu | 7,000 | 500 | < | 300 | 100 |
| G : Cyfanwerthu ac Adwerthu | -900 | 300 | < | -100 | 400 |
| H : Gwestai a thai bwyta | 3,400 | 1,300 | < | 100 | 1,300 |
| I : Trafnidiaeth, storio, cyfathrebu | -3,000 | 600 | 100 | 100 | 400 |
| J : Cyfryngu ariannol | -100 | < | < | -100 | 100 |
| K : Eiddo, rhentu, busnes | 25,100 | 1,100 | < | 700 | 300 |
| L : Gwein. gyhoedd. ac amddiffyn | 5,400 | 600 | 200 | -100 | 500 |
| M : Addysg | -1,800 | -700 | -400 | 400 | -600 |
| N : Iechyd a gwaith cymdeithasol | 5,300 | 1,300 | 100 | 500 | 700 |
| O : Gwas. cymd. a phersonol | -4,100 | -800 | -100 | < | -700 |
| **Pob Sector:** | **25,100** | **4,200** | **-200** | **1,600** | **2,800** |
| **% Newid yn yr Holl Swyddi CALl:** | **2.6%** | **5.1%** | **-1.2%** | **5.3%** | **7.6%** |

***Mae'r dirwasgiad wedi cyflymu'r broses o addasu strwythurol …***

Yn ystod cyfnod y dirwasgiad, 2009-2010, amcangyfrifir bod cyflogaeth wedi crebachu tua -5% yn gyffredinol. Mae tua dwy ran o dair o'r swyddi a gollwyd yn ystod y dirwasgiad wedi bod yn y sector gweithgynhyrchu; bydd cyfran helaeth o'r swyddi hyn wedi eu colli o ganlyniad i gau Alwminiwm Môn yn 2009, gan effeithio'n bennaf ar Ogledd Môn. Mae Ynys Môn wedi bod yn fregus oherwydd nifer y gweithgareddau llai technolegol.

***…..a nifer y swyddi gweithgynhyrchu wedi gostwng yn syfrdanol***

Fodd bynnag, mae'r dirwasgiad wedi cael effaith fawr iawn ar y sector, gan gyflymu newidiadau strwythurol tymor hwy. Amcangyfrifir bod tua 900 (32%) o swyddi gweithgynhyrchu wedi cael eu colli ym Môn yn ystod y cyfnod o 2008 i 2010. Mae Ynys Môn wedi bod yn agored iawn i niwed, nid yn unig oherwydd pwysigrwydd gweithgynhyrchu yma, ond hefyd oherwydd pwysigrwydd llawer o weithgareddau gwerth is.

Mae'r gweithfeydd sydd wedi cau yn cynnwys Eastman Chemicals yn Llangefni, ac Eaton Electric ac Alwminiwm Môn yng Nghaergybi. Collwyd bron i 390 o swyddi o ganlyniad i gau Alwminiwm Môn. Mae Welsh Country Foods yn cael ei ailstrwythuro a chollwyd swyddi hefyd ym Menai Electrical yn Gaerwen. Cyhoeddwyd bod rhagor o swyddi'n mynd i gael eu colli yng Ngwynedd yn Rehau Plastics a bydd 65 o swyddi'n cael eu colli pan fydd Gleneagle Furniture yn cau.

***Ond wrth edrych ymlaen …***


Bydd gostyngiad yng ngwerth y bunt yn niwedd 2007 – 2008 yn helpu i wneud diwydiannau'n fwy cystadleuol. Yn ychwanegol at hynny, mae'r sector gweithgynhyrchu wedi perfformio'n dda, yn enwedig wrth ddenu buddsoddiad mewn sectorau gweithgynhyrchu gwerth uchel a mwy traddodiadol megis prosesu bwyd. Gall mynediad rhwydd at farchnadoedd yn Iwerddon fod yn fantais. Er enghraifft, mae cwmni pobi Ffrengig PV France wedi cyhoeddi yn ddiweddar ei fod yn bwriadu symud ei bencadlys presennol yn y DU o Lannau Mersi i Langefni. Mae'r cwmni'n rhagweld y bydd tua 105 o swyddi'n cael eu creu i ddechrau, a gallai ei gynlluniau uchelgeisiol i ehangu i farchnadoedd sy'n tyfu yn Iwerddon a Sweden arwain at gyfle i greu rhagor o swyddi yn nes ymlaen.

## Nodweddion y Farchnad Lafur

Fel y strwythur diwydiannol cyffredinol, mae rhai gwendidau ym Môn – e.e. mae enillion yn tueddu i fod yn is ar gyfartaledd, yn rhannol oherwydd nad oes cwmnïau corfforaethol a galwedigaethau gwasanaeth gwerth uchel – ond mae gan y llafurlu gymwysterau pur dda ac mae cynrychiolaeth dda o swyddi uwch yn ei strwythur galwedigaethol (seiliedig ar y gweithle).

*Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth*

Dengys dadansoddiad o gyflogaeth yn ôl strwythur galwedigaethol bod gan Ynys Môn gyfran lawer is o alwedigaethau proffesiynol a rheolaethol gwerth uchel na Chymru a'r DU, ond cyfran ychydig yn uwch o grwpiau galwedigaethol 4-7, sy'n adlewyrchu'n fwyaf arbennig arwyddocâd crefftau medrus a gwasanaethau personol a gwerthiant a gwasanaethau cwsmeriaid.




**Cyflogaeth yn ôl Galwedigaeth (Gorffennaf 2009 – Mehefin 2010)**

| | Môn (niferoedd) | Môn (%) | Cymru (%) | Prydain (%) |
|---|---|---|---|---|
| Soc 2000, prif grwpiau 1-3 | 11,300 | 37.9 | 40.3 | 44.4 |
| 1 Rheolwyr ac uwch swyddogion | 3,200 | 10.8 | 13.0 | 15.7 |
| 2 Galwedigaethau proffesiynol | 3,100 | 10.3 | 12.5 | 13.9 |
| 3 Proffesiynol a thechnegol cysylltiedig | 5,000 | 16.5 | 14.5 | 14.6 |
| Soc 2000, prif grwpiau 4-5 | 7,600 | 25.5 | 23.1 | 21.6 |
| 4 Gweinyddol ac ysgrifenyddol | 3,200 | 10.5 | 10.8 | 11.1 |
| 5 Galwedigaethau crefftau medrus | 4,400 | 14.7 | 12.2 | 10.4 |
| Soc 2000, prif grwpiau 6-7 | 5,700 | 19.0 | 17.5 | 16.3 |
| 6 Galwedigaethau gwasanaeth personol | 3,300 | 10.8 | 9.8 | 8.8 |
| 7 Galwedigaethau gwerthiant a gwasanaethau cwsmeriaid | 2,400 | 8.0 | 7.6 | 7.4 |
| Soc 2000, prif grwpiau 8-9 | 5,300 | 17.6 | 19.2 | 17.8 |
| 8 Gweithredwyr prosesau, peirianwaith a pheiriannau | 2,400 | 7.8 | 7.3 | 6.6 |
| 9 Galwedigaethau elfennol | 2,900 | 9.7 | 11.8 | 11.1 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol
Nodiadau: Mae'r niferoedd a'r % ar gyfer rhai 16+ oed

*Cymwysterau*

O ran cymwysterau, mae'r patrwm yn dilyn yn rhesymegol o strwythur diwydiannol a galwedigaethol yr economi leol. Yn arwyddocaol, mae'r gyfran o'r boblogaeth oed gweithio sydd â chymwysterau ychydig yn uwch na'r gyfran ar gyfer Prydain, ond ychydig yn is na'r gyfran ar gyfer Cymru. Mae yna hefyd gyfran lai o drigolion yr ynys sydd â chymhwyster lefel NVQ 4 ac uwch o gymharu â Chymru neu Brydain.

O ran NVQ 1 i 3 ac uwch, mae cyfran lawer uwch o boblogaeth oed gweithio Ynys Môn, o gymharu â Chymru neu Brydain, wedi cymhwyso i'r lefel hon. Mae'r ffigurau manwl i'w gweld yn y tabl isod.

**Cymwysterau Ionawr 2009 - Rhagfyr 2009**

Mae'r niferoedd a'r % ar gyfer rhai 16-64 oed

| | Ynys Môn (niferoedd) | Ynys Môn (%) | Cymru (%) | Prydain (%) |
|---|---|---|---|---|
| NVQ4 ac uwch | 10,800 | 26.0 | 27.3 | 29.9 |
| NVQ3 ac uwch | 20,900 | 50.1 | 47.4 | 49.3 |
| NVQ2 ac uwch | 27,900 | 67.0 | 64.7 | 65.4 |
| NVQ1 ac uwch | 33,300 | 79.9 | 77.5 | 78.9 |
| Cymwysterau eraill | 2,700 | 6.6 | 7.7 | 8.8 |
| Dim cymwysterau | 5,600 | 13.5 | 14.8 | 12.3 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

*Enillion yn ôl gweithle*

Mae enillion yn ôl gweithle ym Môn yn gymharol isel fel y gwelir yn y tabl isod. Mae hyn yn wir am ddynion a merched. Fodd bynnag, o ystyried hyn yng nghyd-destun y rhanbarth mae'n amlwg hefyd bod enillion dynion yn uchel, ac yn uwch na'r rhai ym mhob rhan arall o'r rhanbarth ar wahân i Wrecsam a Sir y Fflint. Enillion merched, fodd bynnag, yw'r rhai isaf yn y rhanbarth.

| Enillion Wythnosol 2010 | Ynys Môn (punnoedd) | Cymru (punnoedd) | Prydain (punnoedd) |
|---|---|---|---|
| **Cyflog wythnosol crynswth** | | | |
| Gweithwyr amser llawn | 440.0 | 456.4 | 501.8 |
| Gweithwyr gwrywaidd amser llawn | 452.9 | 490.3 | 541.9 |
| Gweithwyr benywaidd amser llawn | 353.1 | 405.8 | 440.0 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o oriau ac enillion gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol – dadansoddiad o'r boblogaeth breswyl

Enillion canolrifol mewn punnoedd ar gyfer gweithwyr cyflogedig sy'n byw yn yr ardal

## Daearyddiaeth economaidd: effaith pellter ar gystadleurwydd – anelu at ddealltwriaeth gysyniadol

**Y cysyniad o fod ar y cyrion**

Efallai mai'r broblem fwyaf sy'n wynebu Ynys Môn o safbwynt datblygu economaidd yw'r ffaith ei bod ar y cyrion ac yn bell o farchnadoedd. Mae bod ar y cyrion yn broblem i'r ardaloedd hynny sy'n gymharol ynysig, yn llai hygyrch ac, yn aml, yn cael eu nodweddu gan dir mynyddig, ac anos mynd iddo. Mae hyn yn gysylltiedig â phoblogaeth denau a phrinder busnesau. Mae bod ar y cyrion yn cael ei gysylltu â nifer o ddiffygion yn y farchnad, sy'n arwain at economïau sy'n tueddu i fod yn llai cynhyrchiol.

Mae'r cysyniad yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth ansoddol yn ogystal â dadansoddiadau ystadegol sy'n edrych ar nifer o elfennau. Mae bod ar y cyrion wedi bod yn thema allweddol mewn daearyddiaeth economaidd ac mae'n cyfeirio at bwysigrwydd parhaus lleoliad daearyddol fel rhwystr i ddatblygiad economaidd, yn ogystal â pherthnasedd parhaus polisïau i fynd i'r afael â'r broblem.[4]

*Mecanweithiau achosol*

Mae ymchwil academaidd yn dangos dwy brif elfen achosol. Yr elfen gyntaf yw costau teithio a chludo uwch gan fod yr ardal yn bell o'r prif ganolfannau poblogaeth a gweithgarwch economaidd. Yr ail yw'r diffyg arbedion crynhoi (yn deillio o arbedion maint allanol), a geir mewn lleoliadau llai anghysbell.

Mae costau cludiant yn cysylltu'r ddwy brif elfen. Felly mae pellter yn effeithio ar gystadleurwydd yn uniongyrchol – cost ychwanegol i'r farchnad – ac yn anuniongyrchol, gan nad yw cwmnïau'n gallu manteisio i'r un graddau ar y budd cyffredin sy'n deillio o glystyru. Mae cysylltiad cryf rhwng y clystyru hwn, a ffactorau sy'n ymwneud ag agosrwydd, ac amgylchedd cystadleuol sy'n annog entrepreneuriaeth ac arloesi. Mae darparu gwasanaeth hefyd yn tueddu i fod yn fwy costus mewn ardaloedd mwy anghysbell, ac mae gwaith ymchwil pur fanwl wedi ei wneud i hyn, er enghraifft yng nghyswllt darparu gwasanaethau iechyd.


Mae'r ffactorau eraill sy'n gysylltiedig â bod ar y cyrion, er nad yw'r cyswllt achosol mor uniongyrchol, yn cynnwys teneurwydd y boblogaeth, dibyniaeth ar ddiwydiannau sylfaenol, seilwaith lleol a rhyng-ranbarthol annatblygedig, sector ymchwil a datblygu annatblygedig ac, yn aml iawn, diffyg dylanwad yn y byd llywodraethu ehangach.

---

[4] Europe at the Margins: EU Regional Policy, Peripherality and Rurality. Regional Studies Association, Angers, 15-16 Ebrill 2004. Slippery or Soft? Is Peripherality Changing? Andrew K Copus a Marsaili MacLeod.

Mae'r diagram isod yn dangos y gwahanol elfennau sy'n cael eu dosbarthu i dri grŵp cyffredinol, achosol, dilynol a chysylltiedig (er bod y ffiniau rhwng yr ail a'r trydydd yn anodd iawn i'w diffinio).

**Elfennau bod ar y cyrion**




Ffynhonnell: Andrew K Copus a Marsaili MacLeod, Ebrill 2004.

Mae'r cysyniad o fod ar y cyrion yn parhau'n un dilys ac fel fframwaith damcaniaethol mae'n ddefnyddiol er mwyn archwilio agweddau ar economi Ynys Môn. Dylem allu gwneud ymchwiliad empirig o faterion pellter, prinder arbedion crynhoi ac amgylchedd cystadleuol gwannach. Yn gyffredinol, disgwylid i economïau sydd ar y cyrion arddangos:


- Mwy o ddibyniaeth ar ddiwydiannau sylfaenol
- Cyfraddau entrepreneuriaeth ac arloesi is
- Dwysedd poblogaeth cymharol isel ac, yn gysylltiedig â hyn, dwysedd busnes cymharol isel (ac, o ganlyniad prinder arbedion crynhoi)
- Marchnadoedd llafur llai effeithlon, yn cael eu hadlewyrchu, er enghraifft, mewn mwy o ddiweithdra hirdymor.

Er nad yw ymchwil sylfaenol fanwl i'r agweddau amrywiol hyn yn rhan o gwmpas yr astudiaeth hon, ceir rhywfaint o sylwadau isod ar ddetholiad o ddangosyddion sy'n pwysleisio perthnasedd bod ar y cyrion i Ynys Môn.

Mae hyn yn BWYSIG oherwydd gall fframwaith cysyniadol cymhellol helpu i ddarparu'r sail er mwyn nodi **ffactorau achosol sylfaenol a darparu amodau polisi mwy cynhwysfawr, cyfannol a chymhellol.**

***Pwysigrwydd diwydiannau sylfaenol***

Mae pwysigrwydd diwydiannau sylfaenol i'w weld yn y siart isod. Gyda'i gilydd, mae'r sector yn cynnwys dros 3% o swyddi Ynys Môn, o gymharu â llai nag 1% yn Lloegr ac 1.4% yng Nghymru. Un agwedd bwysig ar hyn yw'r gyfran lawer llai o swyddi sy'n rhan o'r sector gwasanaeth ym Môn – dim ond 70% o gymharu â thros 80% yn Lloegr.




***Cyfraddau entrepreneuriaeth a 'thro' cyflogaeth is***


Mae cysylltiad cryf a chadarnhaol rhwng lefelau 'tro' yn yr economi a pherfformiad economaidd. Tybir bod mynd a dod parhaus gweithfeydd a chwmnïau yn hollbwysig i dwf economi. Tybir bod y broses hon – y cyfeirir ati fel tro economaidd – yn effeithio ar gynhyrchiant diwydiannau gan fod mwy o gystadleuaeth yn arwain at fwy o gost-effeithlonrwydd. Gall hefyd amharu ar greadigrwydd, wrth i gwmnïau mwy arloesol yn ymuno â'r farchnad, gan gymryd lle'r cwmnïau presennol drwy ddefnyddio technolegau cyfredol. [5]

Mae'r gyfradd gofrestru[6] ar gyfer 2007 yn is na chyfartaledd Prydain ym mhob awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, ac yn is na chyfartaledd Cymru ym mhob awdurdod ar wahân i Sir y Fflint a Wrecsam, ond mae gryn dipyn yn is yn Ynys Môn a Gwynedd.


---

[5] Catherine Robinson, Brigid O'Leary, Ana Rincon Business start-ups, closures and economic churn: A review of the literature. Final report. Small Business Service, 23 Awst 2006.

[6] Mae'r data TAW/Talu wrth Ennill am ffurfio busnesau newydd yn dangos darlun mwy cadarnhaol ar gyfer Ynys Môn ac mae'n fesur ehangach o fusnesau newydd sy'n cael eu sefydlu. Fodd bynnag, mae'r data TAW yn cael eu ffafrio gan fod y data Talu wrth Ennill yn cynnwys llawer o fasnachwyr micro bach / unig fasnachwyr heb lawer o arwyddocâd economaidd.




O edrych ar dueddiadau hirdymor (1996-2007) mewn perthynas â'r newid cyffredinol yn y stoc busnesau mae'n amlwg bod nifer y cwmnïau newydd sy'n cael eu ffurfio yn Ynys Môn yn gyson is o gymharu â Chymru neu o ran hynny â rhannau eraill o'r is-ranbarth sydd wedi cael eu cysylltu'n well, er enghraifft Conwy.




***Dwysedd swyddi isel a phrinder arbedion crynhoi o ganlyniad i hynny***

Yn ogystal â dwysedd poblogaeth isel, mae rhanbarthau sydd ar y cyrion yn tueddu i fod â dwysedd swyddi isel sy'n gysylltiedig â diffyg arbedion crynhoi cryf. Mae'r ffigurau ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru yn gyson neu'n uwch na'r ffigurau ar gyfer Cymru. Yr eithriad yw Ynys Môn, lle mae'r ffigur gryn dipyn yn is na'r ffigurau ar gyfer Cymru a Phrydain.

**Dwysedd Swyddi – Ynys Môn, Cymru a Phrydain 2009**

| Ynys Môn (dwysedd) | Cymru (dwysedd) | Prydain (dwysedd) |
|---|---|---|
| 0.6 | 0.71 | 0.79 |

### *Lefelau hunangyflogaeth uchel*

Agwedd arall ar fod ar y cyrion yw lefel gymharol uchel o hunangyflogaeth. Er bod hyn yn ymddangos o bosibl yn wrth-reddfol mae'n aml yn adlewyrchu diffyg cyfleoedd eraill ar gyfer swyddi cyflogedig a llai o gyflogwyr mewn rhanbarthau mwy anghysbell. Mae'r swyddi hyn yn aml fodd bynnag yn anorfod ac yn tueddu i fod yn gysylltiedig a chyflogau cymharol isel ac amgylchiadau ansicr. Mae'r data a welir yma'n cadarnhau hyn ac yn dangos gwahaniaeth amlwg rhwng y dwyrain a'r gorllewin, gyda hunangyflogaeth yn llawer uwch yn ardal fwy anghysbell y gogledd-orllewin nag yn y gogledd-ddwyrain.

| Gor 2009 – Meh 2010 | Ynys Môn (niferoedd) | Ynys Môn (%) | Cymru (%) | Prydain (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Pawb** | | | | |
| Economaidd weithgar† | 31,800 | 73.7 | 72.8 | 76.4 |
| Mewn gwaith† | 30,100 | 69.7 | 66.8 | 70.4 |
| Gweithwyr cyflogedig† | 25,200 | 58.6 | 58.0 | 60.9 |
| Hunangyflogedig† | 4,500 | 10.2 | 8.2 | 9.0 |
| Di-waith (seiliedig ar y model)§ | 2,400 | 7.3 | 8.1 | 7.7 |

Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

### *Lefelau uchel o bobl heb waith ac anweithgarwch*

Gan nad yw'r amgylchiadau ar gyfer cystadleuaeth mor ffafriol, a chan fod dwysedd y swyddi a nifer y swyddi sy'n cael eu creu yn is, mae rhanbarthau sydd ar y cyrion yn tueddu i fod â chyfraddau uwch o bobl heb waith.

Mae hyn yn amlwg yn y tabl isod sy'n dangos bod cyfradd anweithgarwch Ynys Môn yn llawer uwch na chyfradd Prydain (bron i 3% yn fwy), ond yn bwysig iawn, mae ganddi gyfran uwch o bobl economaidd anweithgar nad ydynt eisiau swydd. Er nad yw'n hollol glir beth sy'n achosi hyn, mae'n bosibl ei fod yn adlewyrchu ymateb tymor hwy i'r prinder swyddi sydd ar gael yn lleol ac i'r cyflogau isel ar gyfer y swyddi hynny.

### Anweithgarwch economaidd (Gor-09 i Meh-10)

| | Ynys Môn (niferoedd) | Ynys Môn (%) | Cymru (%) | Prydain (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Pawb** | | | | |
| Economaidd anweithgar | 11,000 | 26.3 | 27.2 | 23.6 |
| Eisiau swydd | 2,200 | 5.2 | 6.6 | 5.7 |
| Ddim eisiau swydd | 8,900 | 21.1 | 20.6 | 18.0 |


Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r boblogaeth gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r niferoedd a'r % ar gyfer y rhai 16-64 oed


Mae'r % yn cyfeirio at y gyfran o'r bobl 16-64 oed sy'n byw yn yr ardal

***Lefelau uwch o ddiweithdra (hirdymor)***


Un agwedd benodol y mae'n werth ei hystyried yn y cyswllt hwn yw diweithdra. Nid yw'n syndod bod cyfraddau hawlio budd-dal wedi bod yn cynyddu drwy'r dirwasgiad fel y dengys y siart isod.




Fel y dengys y siart isod, o gymharu cyfraddau Ynys Môn â chyfraddau ardaloedd eraill mae'n amlwg bod cyfraddau Ynys Môn yn llawer uwch na chyfraddau rhannau eraill o'r is-ranbarth a'u bod wedi bod yn gyson uwch am gyfnod hwy. Mae hwn yn adlewyrchiad arall o fod ar y cyrion ac o 'feddalrwydd' cyffredinol yn y farchnad lafur.





Yn bwysig iawn, mae'r gwahaniaethau hyn yn amlwg hefyd wrth edrych ar gyfraddau hawlwyr hirdymor (dros 12 mis). Mae hon yn broblem leol iawn, sy'n effeithio'n benodol ar Ynys Môn (yn fwyaf tebygol o fod yn adlewyrchiad o brinder galw) a Wrecsam (yn fwy tebygol o fod yn adlewyrchiad o gamgymharu sgiliau o bosibl). Mae hyn yn dangos cymaint anos yw hi i unigolion sy'n colli eu lle yn y farchnad lafur gael swydd mewn economi wledig fwy anghysbell. O ganlyniad, mae'r ffigur ar gyfer Ynys Môn yn uwch na phob ardal arall ac mae'n dangos lefelau is o alw am lafur.




***Prinder swyddi gweigion o gymharu â cheiswyr swyddi***

Profir hyn hefyd gan ffigurau ar gyfer nifer yr hawlwyr lwfans ceisio gwaith am bob swydd wag heb ei llenwi yn y ganolfan waith. [7]

Mae'r siart isod yn dangos yn glir iawn bod y ffigur yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru ym mhob ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru, ar wahân i Sir y Fflint, ond mae'r ffigur ar gyfer Ynys Môn yn sylweddol uwch.




[7] Sylwer: Dim ond tua 40% o'r holl swyddi gweigion sydd wedi eu cofrestru gyda'r Ganolfan Byd Gwaith felly mae'n bosibl nad yw hwn yn ddarlun cywir mewn termau absoliwt. Er hyn, mae'n bosibl y bydd y sefyllfa gymharol yn cael ei hadlewyrchu'n rhesymol.

## Mynegiadau cymdeithasol ehangach o anhwylder economaidd

Mae'r problemau economaidd strwythurol sy'n wynebu Ynys Môn yn cael eu hadlewyrchu hefyd mewn tueddiadau cymdeithasol, yn enwedig lefelau amddifadedd a dirywiad demograffig.

***Crynodiadau o amddifadedd mewn cymunedau anghysbell***

Mae amddifadedd yn uchel ar hyn o bryd o amgylch Caergybi ac Amlwch yng ngogledd yr Ynys. Mae nifer y bobl ifanc sy'n symud o'r ardal yn uchel hefyd, ac mae'r boblogaeth yn heneiddio.

Mae hyn i'w weld yn y tabl isod o'r Mynegai Amddifadedd Lluosog (MALlC). Mae'n dangos y gyfran o'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach (ACE) sydd wedi eu cynnwys yn 25% uchaf yr ACE mwyaf difreintiedig yng Nghymru. O edrych ar y trothwy 25% mae crynodiadau amlwg o amddifadedd yn bodoli.

O ran cyfrannau, mae lefelau amddifadedd yn uchel yng Ngorllewin Môn – yn bennaf yng Nghaergybi (yna ym mhrif ganolfannau Conwy, Caernarfon a Bangor). Mae hyn eto'n pwysleisio'r problemau penodol sy'n wynebu Ynys Môn a'i hardaloedd trefol mwy anghysbell lle mae gwrthgyferbyniad amlwg â'r amgylchiadau cyffredinol yng ngweddill yr is-ranbarth.

**Y Gyfran o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach yr Ardal sydd yn y 25% Uchaf o'r Ardaloedd Mwyaf Difreintiedig drwy'r Wlad**


| | | Nifer ACE | MALIC 2005 | Incwm | C.gaeth | Iechyd | Addysg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A07 | Prif ganolfannau | 60 | 18% | 22% | 12% | 13% | 15% |
| A08 | Gorllewin gwledig | 7 | | | | | |
| A09 | Dwyrain gwledig | 4 | | | | 25% | |
| | **Conwy** | **71** | **15%** | **19%** | **10%** | **12%** | **13%** |
| A10 | Arfon a Chlynnog | 35 | 11% | 14% | 11% | 9% | 9% |
| A11 | Pen Llŷn | 11 | | | | | |
| A12 | P'mg-Ffestiniog | 14 | | 7% | | 7% | |
| A13 | De Meirionnydd | 15 | | | | 7% | |
| | **Gwynedd** | **75** | **5%** | **8%** | **5%** | **7%** | **4%** |
| A14 | Gogledd | 8 | | 13% | 13% | | |
| A15 | Gorllewin | 18 | 33% | 33% | 22% | 11% | 22% |
| A16 | De | 18 | 6% | 6% | 6% | 6% | 6% |
| | **Ynys Môn** | **44** | **16%** | **18%** | **14%** | **7%** | **11%** |
| | **Is-ranbarth** | **190** | **12%** | **14%** | **9%** | **9%** | **9%** |

### *Gostyngiad yn y boblogaeth, colli pobl iau, y boblogaeth yn heneiddio a newidiadau demograffig*

Un dangosydd pwysig iawn yn y cymunedau hynny sy'n dioddef dirywiad economaidd hirdymor yw newid demograffig.

Ym Môn, er bod cyfran y bobl 16-64 oed wedi aros yn weddol gyson, sef tua 61-62% o'r boblogaeth, mae wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gyfran sydd wedi cael ei dosbarthu'n draddodiadol fel "oed gweithio" (16-59 ar gyfer merched ac 16-64 ar gyfer dynion) wedi dilyn yr un patrwm ond wedi gostwng mwy yn ystod y blynyddoedd diweddar – o 58% yn 2005 i 56% yn 2009.

Ar ben arall y raddfa oedran, roedd tua 9% o boblogaeth yr Ynys yn oedolion ifanc (18-24) yn 1992, ond gostyngodd y ganran i 7% erbyn 1996 a dim ond cynnydd bychan i 8% a welwyd ers 2008.




### *Effeithiau diwylliannol – economi, amgylchedd a diwylliant nodedig*

Y pwynt arall y mae'n werth ei nodi yn y cyd-destun hwn yw bod gan Ynys Môn ddiwylliant nodedig iawn, sy'n cael ei adlewyrchu'n fwyaf arbennig gan y gyfran uchel iawn o siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn dwysau'r pryder ynglŷn â dirywiad yr economi leol ac, yn sgil hynny, colli pobl ifanc o'r ardal. Gallai peidio â mynd i'r afael â'r problemau economaidd strwythurol hyn arwain ymhen amser hefyd at fygythiad i iaith a diwylliant unigryw'r ardal.

# rhagamcanion achos sail

Mae'r adran hon yn amlinellu trywydd tebygol economi Môn pe NA bai rhaglen ynys ynni'n bodoli, a phe na bai adweithydd niwclear arall yn cael ei godi yn lle'r Wylfa. Diweddarwyd y rhagamcanion sydd yn yr adroddiad hwn i gynnwys ffigurau cyflogaeth diweddaraf BRES (2009) a hefyd i ystyried y toriadau disgwyliedig mewn gwariant cyhoeddus. Diweddarwyd yr Achos Sail hefyd i gynnwys datgomisiynu Trawsfynydd yn gynt a gohirio'r gwaith o ddatgomisiynu gorsaf bŵer yr Wylfa. Mae colledion gweithgynhyrchu y gwyddys amdanynt (Alwminiwm Môn ac ati) yn Achosion Sail 2010 a 2011. Mae Atodiad I yn amlinellu'r prif dybiaethau ac mae Atodiad II yn amlinellu'r rhesymeg y tu ôl i'r cyfraddau twf diwygiedig ar gyfer y sector cyhoeddus. Gwelir y canlyniadau manwl yn y tabl isod.

**Rhagamcanion Swyddi CALl Achos Sail**

| A2 Ynys Môn, Cyfanswm Swyddi CALl | 2008 | 2009 | 2011 | 2016 | 2021 | 2025 | 08 - 25 | % newid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A+: Amaethyddiaeth, Pysgota a Choedwigaeth | 500 | 500 | 500 | 400 | 300 | 300 | -200 | -44% |
| B : Mwyngloddio a chwarela | < | < | < | < | < | < | < | -60% |
| **A i B – Diwydiannau Sylfaenol** | SS | 500 | 500 | 400 | 400 | 300 | SS | -45% |
| C : Gweithgynhyrchu | 2,800 | 2,400 | 1,800 | 1,700 | 1,500 | 1,400 | -1,400 | -49% |
| D : Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | ! | 700 | 700 | 500 | 300 | SS | -300 | -53% |
| E : Rheoli cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, gwastraff a gweithgareddau adfer | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | 8% |
| F : Adeiladu | 1,100 | 1,100 | 1,000 | 1,100 | 1,200 | 1,200 | 100 | 6% |
| **C i F – Cynhyrchu** | SS | 4,400 | 3,700 | 3,400 | 3,200 | 3,100 | SS | -34% |
| G : Masnach gyfanwerthu ac adwerthu; atgweirio cerbydau modur a beiciau modur | 2,400 | 2,600 | 2,500 | 2,600 | 2,700 | 2,700 | 300 | 14% |
| H : Trafnidiaeth a storio | 1,100 | 1,300 | 1,200 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 200 | 20% |
| I : Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd | 1,100 | 1,200 | 1,200 | 1,200 | 1,300 | 1,300 | 200 | 18% |
| J : Gwybodaeth a chyfathrebu | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | < | 37% |
| K : Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 100 | 200 | 100 | 100 | 100 | 200 | < | 18% |
| L : Gweithgareddau eiddo tiriog | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | < | -7% |
| M : Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 900 | 800 | 800 | 800 | 900 | 900 | < | 1% |
| N : Gweithgareddau gweinyddiaeth a gwasanaethau cymorth | 300 | 600 | 600 | 600 | 600 | 600 | 300 | 106% |
| O : Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 1,100 | 1,200 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | -100 | -11% |
| P : Addysg | 1,400 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,600 | 200 | 14% |
| Q : Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol | 1,800 | 1,600 | 1,700 | 1,700 | 1,800 | 1,900 | 100 | 5% |
| R : Y celfyddydau, adloniant a hamdden | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | 9% |
| S : Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 300 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | -12% |
| **G i S – Gwasanaethau** | 11,000 | 11,700 | 11,400 | 11,600 | 11,900 | 12,200 | 1,300 | 11% |
| **CYFANSWM CYFLOGAETH** | **16,200** | **16,700** | **15,600** | **15,500** | **15,500** | **15,600** | **-600** | **-3.5%** |

NODIADAU: Ffigurau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf, fel sy'n ofynnol gan ONS; mae < yn dangos gwerth sy'n llai na + neu – 50; ! yn dangos gwerth sydd ym marn ONS yn datgelu data ac, o ganlyniad, y mae'n rhaid ei atal; ac SS yn dangos gwerthoedd lle cymhwyswyd 'atalydd meddal', fel sy'n ofynnol gan ONS er mwyn sicrhau na chyflwynir ffigurau sy'n datgelu data.

**Tueddiadau Cyflogaeth Cyffredinol hyd 2025**

Mae'r siart isod yn dangos tueddiadau cyffredinol cyflogaeth. Mae'n ddiddorol sylwi ar y cynnydd mewn cyflogaeth yn 2008 – 2009, sy'n seiliedig ar ddata BRES ar gyfer y ddau gyfnod. Defnyddiwyd data gwirioneddol yn hytrach na data wedi eu modelu, ac mae'r canlyniad braidd yn annisgwyl o ystyried y cyfnod o ddirwasgiad dwfn a'r gostyngiad sylweddol mewn swyddi gweithgynhyrchu. Mae'r duedd hon yn dal HEB EI HEGLURO ac mae'n ymddangos ychydig yn groes i'r graen. Gallai fod yn adlewyrchiad anghywir o'r realiti, ond gallai hefyd ddeillio o gamgymeriadau yn y data gwreiddiol – camgymeriadau cod post yn fwy na thebyg.

O edrych ar y tueddiadau'n gyffredinol gellir nodi tri chyfnod:

*Effeithiau'r dirwasgiad 2009 – 2010*


Gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn cyflogaeth rhwng 2009 a 2010, pan gollwyd tua 800 o swyddi, tua 4.8% o gyfanswm cyflogaeth yr ynys. Roedd cyfran sylweddol o'r swyddi hyn ym maes gweithgynhyrchu, ac roedd cysylltiad agos rhwng hyn a chau Alwminiwm Môn. Gwelwyd gostyngiad brawychus o 23% mewn swyddi gweithgynhyrchu yn ystod y cyfnod hwn.

*Llinellau gwastad yn yr economi 2011 – 2016*

Rhwng 2011 a 2016 mae cyflogaeth yn sefydlogi, gan adlewyrchu'r toriadau caled mewn gwariant cyhoeddus sy'n cael eu gwneud fel mesurau cynnar yn 2011 ac sy'n atal twf. Gwelir hefyd effeithiau datgomisiynu'r Wylfa sy'n cael effaith fawr iawn ar yr economi yn ystod y cyfnod hwn.

*Adferiad araf o 2017 ymlaen*

Mae'r economi'n dechrau tyfu o safbwynt cyflogaeth o 2017 ymlaen. Er hyn, y pwynt allweddol yma yw bod gostyngiad o 4% mewn cyflogaeth ar ddiwedd cyfnod y rhagamcanion o gymharu â blwyddyn sail 2008.




**Diwydiannau Cynhyrchu**

Mae'r tueddiadau yn y diwydiannau cynhyrchu i'w gweld yn y siart isod. Mae rhywfaint o ostyngiad parhaus mewn swyddi gweithgynhyrchu er bod y gostyngiad yn amlwg yn llai na'r gostyngiad sylweddol mewn cyflogaeth a welwyd yn ystod y dirwasgiad.

Mae dadl real iawn ynglŷn â pha mor debygol yw dibrisiad sterling o arwain at welliant sylweddol mewn cystadleurwydd hirdymor a rhagolygon cyflogaeth yn y sector gweithgynhyrchu. Mae'n sicr bod rhywfaint o wirionedd yn hyn gyda gweithgynhyrchu sy'n cael ei arwain gan allforion yn perfformio'n gryf iawn yn dilyn dibrisiad sterling yn 2007 a 2008. Er hyn, mae amheuaeth o hyd ynglŷn â beth allai ddigwydd i gyfraddau cyfnewid yn y dyfodol wrth i'r marchnadoedd ymateb i ymgais y Glymblaid i leihau'r diffyg yn y Gyllideb – a allai mewn gwirionedd arwain at rywfaint o gynnydd yng ngwerth sterling. Fodd bynnag, mae'n ddigon posibl bod y rhagamcanion yn cynrychioli terfyn isaf yn hytrach nag uchaf o ran cyflogaeth yn y dyfodol yn y sector gweithgynhyrchu.


Er y gellid dadlau y dylid mabwysiadau gwell cyfraddau twf ar gyfer y sector gweithgynhyrchu, mae hyn yn cael ei adlewyrchu i ryw raddau yn y senarios – lle mae swyddi Ynys Ynni ychwanegol yn cael eu creu yn y sector cynhyrchu. Yn ychwanegol at hyn, dylid nodi bod gwell cyfraddau twf mewn gweithgynhyrchu yn cael llai o effaith, gan fod maint y sector wedi lleihau'n sylweddol – bellach yn cynrychioli ychydig dros 10% o'r swyddi yn yr economi leol ar ôl y dirwasgiad.

Y pwynt allweddol arall i'w nodi yw'r gostyngiad sylweddol mewn cyflogaeth yn 2016 o ganlyniad i ddatgomisiynu'r Wylfa. Bydd hyn yn cael effaith lluosydd sylweddol ar yr economi leol gan fod cyflogau a gwerth ychwanegol crynswth y gweithiwr yn gymharol uchel.



## Diwydiannau Gwasanaeth

Mae tueddiadau'r sector gwasanaeth i'w gweld ar y siart trosodd. Mae'r siart yn dangos twf llawer llai ar gyfer y sector gwasanaeth sy'n gyson ag 'ailgydbwyso'r' economi. Mae'n ddiddorol sylwi mai ychydig o dwf sydd i'w weld mewn gweinyddiaeth gyhoeddus wrth symud ymlaen. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa yn ystod y degawd diwethaf pan oedd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn cynyddu'n gyflym. Mae rhywfaint o dwf i'w weld mewn gweithgareddau cyfanwerthu ac adwerthu ac ym maes iechyd.




## Economi mewn dirywiad economaidd strwythurol hirdymor?

Yn gyffredinol, mae'r tueddiadau'n awgrymu economi mewn dirywiad strwythurol hirdymor. Mae hyn yn adlewyrchu prinder sectorau twf, ond yn bwysicach na hynny, dirywiad a diflaniad y prif sectorau traddodiadol, gan gynnwys cynhyrchu ynni, a lleihad sylweddol yn y capasiti gweithgynhyrchu yn ystod y dirwasgiad.

Er y byddai rhywun yn disgwyl gweld twf yn y sectorau twristiaeth a lletygarwch, yn ogystal â hunangyflogaeth, mae cyflogau yn y ddau sector hyn yn gymharol isel.

Y canlyniad net yw economi a fyddai o safbwynt cyflogaeth – hyd yn oed os ydym yn cymryd nad yw manteision dibrisiad sterling mewn llawer o weithgareddau wedi cael eu cynnwys yn llwyr – yn cael anhawster yn ystod cyfnod y rhagamcanion i ddychwelyd i'r lefel gyflogaeth ar ddechrau'r cyfnod.

Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd Fframwaith Ynys Ynni Ynys Môn a chanlyniadau cysylltiedig.

# dadansoddi senarios

## Rhagamcanion Swyddi CALl Senario 1: Adweithydd Newydd yr Wylfa

Mae Senario Achos Sail 1 yn cymryd bod adweithydd newydd yn cael ei adeiladu yn yr Wylfa ond bod popeth arall fel yr Achos Sail (h.y. dim swyddi ychwanegol o ganlyniad i gynlluniau anniwclear Ynys Ynni).

Yn y Senario hon cynhwysswyd ffigurau Magnox ar gyfer swyddi gweithredu ac adeiladu y disgwylir y byddant yn deillio o'r gwaith adeiladu newydd. Maent yn gyfrinachol, felly nid ydynt i'w gweld yma. Mae'r swyddi adeiladu a gweithredu ychwanegol hefyd yn creu rhywfaint o swyddi anuniongyrchol a chymhellol, sydd wedi cael eu hystyried yn y rhagamcanion. Rhaid pwysleisio bod y rhagamcanion yn seiliedig ar y GWEITHLE, ac na wneir unrhyw dybiaeth ynglŷn â phwy fydd yn cael y swyddi hyn.


Mae'r siart isod yn dangos rhagamcanion cyflogaeth Senario 1 ym Môn (ar sail gweithle):

| **A2 Ynys Môn, Cyfanswm Swyddi CALl** | **2008** | **2009** | **2011** | **2016** | **2021** | **2025** | **08 - 25** | **% newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A+: Amaethyddiaeth, Pysgota a Choedwigaeth | 500 | 500 | 500 | 400 | 300 | 300 | -200 | -47% |
| B : Mwyngloddio a chwarela | < | < | < | < | < | < | < | -116% |
| **A i B - Diwydiannau Sylfaenol** | SS | 500 | 500 | 400 | 400 | 300 | SS | -50% |
| C : Gweithgynhyrchu | 2,800 | 2,400 | 1,800 | 1,700 | 1,500 | 1,400 | -1,300 | -73% |
| D : Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | ! | 700 | 700 | 900 | 1,200 | SS | 600 | 86% |
| E : Rheoli cyflenwad dwr; carthffosiaeth, gwastraff a gweithgareddau adfer | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | 7% |
| F : Adeiladu | 1,100 | 1,100 | 1,000 | 3,300 | 1,300 | 1,400 | 200 | 20% |
| **C i F – Cynhyrchu** | SS | 4,400 | 3,700 | 6,100 | 4,200 | 4,100 | SS | -15% |
| G : Masnach gyfanwerthu ac adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 2,400 | 2,600 | 2,500 | 2,700 | 2,700 | 2,700 | 300 | 13% |
| H : Trafnidiaeth a storio | 1,100 | 1,300 | 1,200 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 200 | 19% |
| I : Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd | 1,100 | 1,200 | 1,200 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 200 | 17% |
| J : Gwybodaeth a chyfathrebu | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | < | 42% |
| K : Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 100 | 200 | 100 | 200 | 200 | 200 | < | 25% |
| L : Gweithgareddau eiddo tiriog | 100 | 100 | 100 | 200 | 100 | 200 | < | 3% |
| M : Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 900 | 800 | 800 | 900 | 900 | 900 | < | 2% |
| N : Gweithgareddau gweinyddiaeth a gwasanaethau cymorth | 300 | 600 | 600 | 600 | 600 | 700 | 300 | 57% |
| O : Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 1,100 | 1,200 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | < | -12% |
| P : Addysg | 1,400 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,600 | 200 | 13% |
| Q : Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol | 1,800 | 1,600 | 1,700 | 1,700 | 1,800 | 1,900 | 100 | 5% |
| R : Y celfyddydau, adloniant a hamdden | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | 11% |
| S : Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 300 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | -12% |
| **G i S – Gwasanaethau** | 11,000 | 11,700 | 11,400 | 12,000 | 12,000 | 12,300 | 1,400 | 12% |
| **CYFANSWM CYFLOGAETH** | **16,200** | **16,700** | **15,600** | **18,400** | **16,600** | **16,700** | **600** | **3.6%** |

NODIADAU: Ffigurau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf, fel sy'n ofynnol gan ONS; mae < yn dangos gwerth sy'n llai na + neu – 50; ! yn dangos gwerth sydd ym marn ONS yn datgelu data ac, o ganlyniad, y mae'n rhaid ei atal; ac SS yn dangos gwerthoedd lle cymhwyswyd 'atalydd meddal', fel sy'n ofynnol gan ONS er mwyn sicrhau na chyflwynir ffigurau sy'n datgelu data.


## Tueddiadau Cyflogaeth gydag adweithydd newydd

Mae'r tueddiadau cyflogaeth cyffredinol i'w gweld yn y siart isod. Mae hyn yn llawer gwell na'r achos sail, ond mae'n dal i weld yr economi'n aros yn ei hunfan ar y cyfan o safbwynt cyflogaeth yn ystod cyfnod y rhagamcanion. Efallai fod hyn yn fwy CADARNHAOL nag y mae'n ymddangos o ystyried cymaint o gapasiti sydd wedi'i golli yn ystod y dirwasgiad.




## Diwydiannau Cynhyrchu

Mae'r tueddiadau yn yr is-sectorau i'w gweld yn y siart isod, sy'n dangos cynnydd sylweddol, ond dros dro, mewn swyddi sy'n gysylltiedig ag adeiladu. Un nodwedd bwysig yw bod swyddi yn y sector cynhyrchu trydan yn cynyddu'n gyson o 2014/15 ymlaen.




Mae effaith adeiladu adweithydd newydd yn yr Wylfa yn amlwg iawn yn y graff hwn, sy'n dangos swyddi adeiladu'n cynyddu'n sylweddol i fod ar eu hanterth o gwmpas 2017 a nifer y swyddi yn y diwydiannau Cyfleustodau yn cynyddu o 2015 ymlaen. Mae cyflogaeth yn y sector gwasanaeth yn aros yr

un fath ar y cyfan gydag ychydig o gynnydd mewn ambell gategori o swyddi anuniongyrchol yn deillio o'r swyddi Cyfleustodau ac Adeiladu ychwanegol yn sgil adeiladu'r adweithydd newydd yn yr Wylfa.

## Rhagamcanion Swyddi CALl Senario 2a: Adeiladu Adweithydd Newydd yn yr Wylfa a Chynnydd mewn Swyddi o ganlyniad i Gynlluniau Eraill Ynys Ynni

Mae Senario 2a yn cyfateb i Senario 1 YNGHYD AG amcangyfrif o swyddi yn cael eu creu drwy gynlluniau anniwclear Ynys Ynni gan ystyried rhyw gymaint o ddadansoddiad o debygolrwydd. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif mwy ceidwadol / pesimistaidd.


Mae Atodiad III yn amlinellu sut y mae swyddi Ynys Ynni wedi cael eu hamcangyfrif a'u cymhwyso i Senario 2a y model, ac yn cymharu hyn â'r amcangyfrifon Ynys Ynni diwygiedig a ddefnyddiwyd yn Senario 2b.

| **A2 Ynys Môn, Cyfanswm Swyddi CALl** | **2008** | **2009** | **2011** | **2016** | **2021** | **2025** | **08 - 25** | **% newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A+: Amaethyddiaeth, Pysgota a Choedwigaeth | 500 | 500 | 500 | 400 | 300 | 300 | -200 | -47% |
| B : Mwyngloddio a chwarela | < | < | < | < | < | < | < | -116% |
| **A i B - Diwydiannau Sylfaenol** | SS | 500 | 500 | 400 | 400 | 300 | SS | -50% |
| C : Gweithgynhyrchu | 2,800 | 2,400 | 1,900 | 1,800 | 1,600 | 1,600 | -1,200 | -66% |
| D : Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | ! | 700 | 700 | 900 | 1,200 | SS | 600 | 86% |
| E : Rheoli cyflenwad dwr; carthffosiaeth, gwastraff a gweithgareddau adfer | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | 7% |
| F : Adeiladu | 1,100 | 1,100 | 1,000 | 3,300 | 1,300 | 1,400 | 200 | 20% |
| **C i F – Cynhyrchu** | SS | 4,400 | 3,700 | 6,100 | 4,300 | 4,200 | SS | -12% |
| G : Masnach gyfanwerthu ac adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 2,400 | 2,600 | 2,500 | 2,700 | 2,700 | 2,800 | 400 | 16% |
| H : Trafnidiaeth a storio | 1,100 | 1,300 | 1,200 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 200 | 19% |
| I : Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd | 1,100 | 1,200 | 1,200 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 200 | 20% |
| J : Gwybodaeth a chyfathrebu | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | < | 46% |
| K : Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 100 | 200 | 100 | 200 | 200 | 200 | < | 28% |
| L : Gweithgareddau eiddo tiriog | 100 | 100 | 200 | 300 | 300 | 400 | 200 | 136% |
| M : Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 900 | 800 | 800 | 900 | 900 | 900 | < | 3% |
| N : Gweithgareddau gweinyddiaeth a gwasanaethau cymorth | 300 | 600 | 600 | 600 | 600 | 700 | 300 | 58% |
| O : Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 1,100 | 1,200 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | -100 | -12% |
| P : Addysg | 1,400 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,600 | 200 | 13% |
| Q : Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol | 1,800 | 1,600 | 1,700 | 1,700 | 1,800 | 1,900 | 100 | 5% |
| R : Y celfyddydau, adloniant a hamdden | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | 12% |
| S : Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 300 | 200 | 200 | 300 | 300 | 300 | < | 1% |
| **G i S – Gwasanaethau** | 11,000 | 11,700 | 11,500 | 12,100 | 12,300 | 12,700 | 1,800 | 15% |
| **CYFANSWM CYFLOGAETH** | **16,200** | **16,700** | **15,700** | **18,700** | **17,000** | **17,200** | **1,100** | **6.8%** |

NODIADAU: Ffigurau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf, fel sy'n ofynnol gan ONS; mae < yn dangos gwerth sy'n llai na + neu – 50; ! yn dangos gwerth sydd ym marn ONS yn datgelu data ac, o ganlyniad, y mae'n rhaid ei atal; ac SS yn dangos gwerthoedd lle cymhwyswyd 'atalydd meddal', fel sy'n ofynnol gan ONS er mwyn sicrhau na chyflwynir ffigurau sy'n datgelu data.

## Tueddiadau Cyflogaeth


Mae’r tueddiadau cyflogaeth cyffredinol i’w gweld yn y siart isod. Mae hwn bellach yn dangos cynnydd cyson yn nifer y swyddi ym Môn o 2010 ymlaen, gyda chyflogaeth ar ddiwedd cyfnod y rhagamcanion gryn dipyn yn uwch na blwyddyn sail 2008. Unwaith eto, dylid cofio bod hyn yn welliant sylweddol iawn o gofio’r capasiti a gollwyd yn ystod 2009, yn enwedig mewn gweithgynhyrchu. Mae cyflogaeth gyffredinol yn cynyddu tua 1,000, sydd bron yn 7% yn ystod y cyfnod.




Mae’r siart hwn yn dangos uchafbwynt ychydig yn uwch yn 2017 a lefelau ychydig yn uwch ar ôl hynny, o ganlyniad i swyddi adeiladu / gweithredu ychwanegol Ynys Ynni.

### Diwydiannau Cynhyrchu


Mae’r Senario hon yn rhoi uchafbwynt llymach mewn adeiladu/ gosod a lefelau uwch o swyddi gweithgynhyrchu na’r achos sail.




### Diwydiannau Gwasanaeth

Mae’r siart isod yn dangos yr effeithiau anuniongyrchol, gyda Chyfanwerthu, Adwerthu a Dosbarthu’n dangos nifer uwch o swyddi dan y senario hon.

Mae ambell gategori arall yn dangos ychydig o gynnydd o ganlyniad i greu swyddi anuniongyrchol.




## Rhagamcanion Swyddi CALl Senario 2b: Adeiladu Adweithydd Newydd yr Wylfa a'r Cynnydd Potensial Mwyaf mewn Swyddi o ganlyniad i Gynlluniau Eraill Ynys Ynni

Mae Senario 2a yn cyfateb i Senario 1 YNGHYD AG amcangyfrifon diwygiedig o swyddi wedi eu creu drwy gynlluniau anniwclear Ynys Ynni, gan gymryd bod 100% o'r swyddi potensial diweddaraf a nodwyd gan gwmni ymgynghorwyr URS yn cael eu gwireddu. I bob pwrpas mae'n darparu meincnod / terfyn uchaf er mwyn mesur canlyniadau. Mae hyn yn cynrychioli senario optimistaidd Ynys Ynni.

Mae Atodiad III yn amlinellu sut y mae swyddi Ynys Ynni wedi cael eu hamcangyfrif a'u cymhwyso i Senario 2a o'r model, ac yn cymharu hyn â'r amcangyfrifon Ynys Ynni diwygiedig a ddefnyddiwyd yn Senario 2b.

| **A2 Ynys Môn, Cyfanswm Swyddi CALl** | **2008** | **2009** | **2011** | **2016** | **2021** | **2025** | **08 - 25** | **% newid** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A+: Amaethyddiaeth, Pysgota a Choedwigaeth | 500 | 500 | 500 | 400 | 300 | 300 | -200 | -47% |
| B : Mwyngloddio a chwarela | < | < | < | < | < | < | < | -116% |
| **A i B - Diwydiannau Sylfaenol** | SS | 500 | 500 | 400 | 400 | 300 | SS | -50% |
| C : Gweithgynhyrchu | 2,800 | 2,400 | 1,900 | 1,800 | 1,700 | 1,600 | -1,200 | -65% |
| D : Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | ! | 700 | 700 | 900 | 1,200 | SS | 600 | 86% |
| E : Rheoli cyflenwad dwr; carthffosiaeth, gwastraff a gweithgareddau adfer | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | 7% |
| F : Adeiladu | 1,100 | 1,100 | 1,100 | 3,300 | 1,300 | 1,400 | 300 | 23% |
| **C i F – Cynhyrchu** | SS | 4,400 | 3,800 | 6,200 | 4,400 | 4,300 | SS | -10% |
| G : Masnach gyfanwerthu ac adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 2,400 | 2,600 | 2,600 | 2,900 | 3,000 | 3,100 | 700 | 27% |
| H : Trafnidiaeth a storio | 1,100 | 1,300 | 1,200 | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 200 | 20% |
| I : Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd | 1,100 | 1,200 | 1,200 | 1,300 | 1,400 | 1,400 | 300 | 24% |
| J : Gwybodaeth a chyfathrebu | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | 51% |
| K : Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 100 | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | < | 32% |
| L : Gweithgareddau eiddo tiriog | 100 | 100 | 200 | 200 | 200 | 200 | 100 | 50% |
| M : Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 900 | 800 | 800 | 900 | 900 | 900 | < | 4% |
| N : Gweithgareddau gweinyddiaeth a gwasanaethau cymorth | 300 | 600 | 600 | 600 | 600 | 700 | 400 | 58% |
| O : Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 1,100 | 1,200 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 | -100 | -12% |


| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| P : Addysg | 1,400 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,500 | 1,600 | 200 | 13% |
| Q : Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol | 1,800 | 1,600 | 1,700 | 1,700 | 1,800 | 1,900 | 100 | 5% |
| R : Y celfyddydau, adloniant a hamdden | 200 | 200 | 200 | 200 | 200 | 300 | < | 13% |
| S : Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 300 | 200 | 200 | 300 | 300 | 300 | 100 | 26% |
| **G i S – Gwasanaethau** | 11,000 | 11,700 | 11,600 | 12,300 | 12,700 | 13,000 | 2,100 | 18% |
| **CYFANSWM CYFLOGAETH** | **16,200** | **16,700** | **15,900** | **18,900** | **17,400** | **17,600** | **1,400** | **9.0%** |

NODIADAU: Ffigurau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf, fel sy'n ofynnol gan ONS; mae < yn dangos gwerth sy'n llai na + neu – 50; ! yn dangos gwerth sydd ym marn ONS yn datgelu data ac, o ganlyniad, y mae'n rhaid ei atal; ac SS yn dangos gwerthoedd lle cymhwyswyd 'atalydd meddal', fel sy'n ofynnol gan ONS er mwyn sicrhau na chyflwynir ffigurau sy'n datgelu data.

## Tueddiadau Cyflogaeth


Mae'r siart isod yn dangos swyddi newydd yn lle swyddi datgomisiynu'r Wylfa, ac adeiladu ar ei anterth tua 2017 yn sgil gwaith newydd yn yr Wylfa, ynghyd â chynnydd yn nifer y swyddi o gymharu â'r Achos Sail a Senario 1.

Mae'n awgrymu, hyd yn oed ar ôl ystyried y dirwasgiad (h.y. yr economi'n crebachu) y bydd tua 1,700 o swyddi'n cael eu creu, sef cynnydd o 11%, yn ystod y cyfnod o 2008 i 2025.





## Diwydiannau Cynhyrchu

Mae'r siart hwn yn dangos yr un patrymau â Senario 1, ond lefelau uwch o gyflogaeth mewn gweithgynhyrchu o'r swyddi YNYS YNNI ychwanegol, ynghyd ag uchafbwynt llymach ar gyfer swyddi adeiladu/gosod.



## Diwydiannau Gwasanaeth

Mae effaith cyflogaeth anuniongyrchol ychwanegol ar y sector gwasanaeth yn amlwg iawn.



# effeithiau ychwanegol net


Mae'r adran hon yn edrych yn fanylach ar yr effeithiau economaidd 'ychwanegol net' sy'n gysylltiedig ag Ynys Ynni Ynys Môn. Mae'n bwysig cofio mai'r gymhariaeth sy'n cael ei defnyddio yma yw'r achos sail – sy'n cynnwys datgomisiynu'r ddwy orsaf bŵer (yr Wylfa a Thrawsfynydd), effaith y dirwasgiad a gostyngiadau mewn cyflogaeth yn deillio o'r toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

Mae hyn yn golygu bod economi Ynys Môn wedi cael sawl ergyd sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac y bydd eu heffeithiau'n para am beth amser eto. O'u cymharu â'r diffiniad hwn o'r 'Achos Sail' mae'r effeithiau'n ymddangos yn eithaf sylweddol.

Fodd bynnag, dylid nodi ei bod yn bosibl na fydd effaith gorsaf niwclear newydd yn yr Wylfa nac yma nac acw o gymharu â'r sefyllfa bresennol (h.y. yn cynnwys gorsaf weithredol yn yr Wylfa), yn anad dim oherwydd y bydd gorsaf niwclear newydd yn fwy effeithlon ac, o ganlyniad, y bydd angen llai o bobl, er y bydd popeth arall yr un fath. Byddai diffinio'r sefyllfa bresennol (gydag adweithydd gweithredol) fel yr achos sail yn lleihau'r effeithiau a welir yn sylweddol. Mae angen cofio hyn wrth ddehongli canlyniadau'r tablau sy'n cael eu cyflwyno.

**Cyflogaeth Ychwanegol Net**

Mae'r siart isod yn cymharu'r tair senario, gan ddangos y gwahaniaeth sylweddol rhwng yr Achos Sail a'r Senarios, a hefyd y cynnydd a ddarperir gan gymharu'r senario leiaf optimistaidd a'r senario fwyaf optimistaidd.



Os na fydd unrhyw gynlluniau Ynys Ynni (niwclear neu fel arall) yn dwyn ffrwyth, gwelwn y disgwylir i nifer y swyddi ostwng o gymharu â lefelau 2008 – gan ddisgyn i tua 97% o lefelau 2008 erbyn 2025.

Yr effaith fwyaf ar hyn o bell ffordd fyddai comisiynu gorsaf niwclear newydd yn yr Wylfa. Mae hyn yn cael effaith aruthrol ar swyddi wedi eu lleoli ym Môn – yn 118% o lefel 2008 ar ei anterth yn 2017 ac yn dal i lwyddo i fod yn 104% o lefelau 2008 erbyn 2025.

Gallai cynlluniau eraill Ynys Ynni godi'r lefelau hyn yn uwch eto – i 119% a 107% yn y drefn honno gan ddefnyddio'r senario geidwadol (2a) ac i 121% a 109% yn y drefn honno os bydd yr amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer potensial anniwclear yn cael eu gwireddu'n llawn.

O ran cyfanswm y swyddi ar yr Ynys, mae'r rhain yn cyfateb i:

| Swyddi wedi eu lleoli ym Môn (CALl): | Achos Sail | Senario 1 – Yr Wylfa | Senario 2a – Yr Wylfa + YY ceidwadol | Senario 2b – Wylfa + YY optimistaidd |
|---|---|---|---|---|
| 2017 | 15,300 | 19,000 | 19,300 | 19,600 |
| 2025 | 15,600 | 16,700 | 17,200 | 17,600 |

Ffigurau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf er mwyn cydymffurfio ag ONS

Mae hyn yn dangos bod y gwaith adeiladu newydd yn yr Wylfa yn cael effaith hirdymor o 1,100 o swyddi ychwanegol ar yr Ynys, o gymharu â'r Achos Sail – cynnydd o 7%.

Byddai gweithredu ychydig o gynlluniau anniwclear y rhaglen Ynys Ynni (Senario 2a) yn cynyddu hyn i 1,600 o swyddi – gwelliant o 10% – ond pe gwireddid potensial mwyaf cynlluniau'r rhaglen Ynys Ynni, byddai hynny'n cynyddu i 2,000 o swyddi neu welliant o 13%.

**Cymharu Gwahanol Sectorau**

Mae'r tabl isod yn darparu cymariaethau sectoraidd manwl ar gyfer y senarios amrywiol. Mae'n dangos y prif effeithiau sectoraidd o gymharu â'r sail sydd i'w gweld yn bennaf mewn perthynas â:

- Gweithgynhyrchu – gyda'r cynllun Ynys Ynni'n creu 200 yn rhagor o swyddi o gymharu â'r achos sail, sy'n gynnydd o 14%.
- Cynhyrchu trydan – creu 800 yn rhagor o swyddi o gymharu â'r achos sail gan gynrychioli cynnydd aruthrol o 267%.
- Adeiladu – sydd yn y tymor hwy yn arwain at 200 yn rhagor o swyddi, gan adlewyrchu cynnydd o 14% o gymharu â'r achos sail.
- Effeithiau anuniongyrchol eraill sydd o fudd i'r sectorau cyfanwerthu ac adwerthu, gwasanaethau llety a bwyd a chymorth gweinyddol. Mae


maint yr effaith yn dibynnu llawer iawn ar y Senario sy'n cael ei hystyried.

| 2025 – Swyddi Ynys Môn yn ôl Diwydiant, CALl | Achos Sail | Senario 1 Wylfa Newydd | Senario 2a Wylfa Newydd + YY Cymedrol | Senario 2b Wylfa Newydd + YY Mwyaf |
|---|---|---|---|---|
| A+: Amaethyddiaeth, Pysgota a Choedwigaeth | 300 | 300 | 300 | 300 |
| B : Mwyngloddio a chwarela | < | < | < | < |
| C : Gweithgynhyrchu | 1,400 | 1,400 | 1,600 | 1,600 |
| D : Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | 300 | 1,100 | 1,100 | 1,100 |
| E : Rheoli cyflenwad dwr; carthffosiaeth, gwastraff a gweithgareddau adfer | 200 | 200 | 200 | 200 |
| F : Adeiladu | 1,200 | 1,400 | 1,400 | 1,400 |
| G : Masnach gyfanwerthu ac adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 2,700 | 2,700 | 2,800 | 3,100 |
| H : Trafnidiaeth a storio | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 1,300 |
| I : Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd | 1,300 | 1,300 | 1,300 | 1,400 |
| J : Gwybodaeth a chyfathrebu | 100 | 100 | 100 | 100 |
| K : Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 200 | 200 | 200 | 200 |
| L : Gweithgareddau eiddo tiriog | 100 | 200 | 400 | 200 |
| M : Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 900 | 900 | 900 | 900 |
| N : Gweithgareddau gweinyddiaeth a gwasanaethau cymorth | 600 | 700 | 700 | 700 |
| O : Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol | 1,000 | 1,000 | 1,000 | 1,000 |
| P : Addysg | 1,600 | 1,600 | 1,600 | 1,600 |
| Q : Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol | 1,900 | 1,900 | 1,900 | 1,900 |
| R : Y celfyddydau, adloniant a hamdden | 200 | 200 | 200 | 300 |
| S : Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 200 | 200 | 300 | 300 |
| | **15,600** | **16,700** | **17,200** | **17,600** |

Nodiadau: Ffigurau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf er mwyn cydymffurfio ag ONS; < = Gwerthoedd llai na 50

## Cyflogaeth adeiladu

Mae dadansoddiad manylach o swyddi adeiladu i'w weld isod:




Sylwer nad oes <u>dim</u> gwahaniaeth rhwng Senarios 1 a 2a: roedd yr achos anniwclear cymedrol yn cymryd y byddai unrhyw swyddi adeiladu/gosod yn

cael eu hamsugno gan dwf cyffredinol y sector. Mae Senario 2b yn dangos effaith codiad bychan ar ben swyddi adeiladu newydd yn yr Wylfa.


Mae pob Senario yn dangos lefel ychydig yn uwch o weithgaredd adeiladu yn 2025 o gymharu â'r Achos Sail: gellir egluro hyn fel y twf hirdymor o'r naill flwyddyn i'r llall yn cael ei hybu gan y gweithgaredd adeiladu dros dro rhwng 2014 a 2019.

# effeithiau ar y farchnad lafur

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r canlyniadau, sy'n gysylltiedig â'r rhagamcanion cyflogaeth, i'r farchnad lafur. Dylid nodi, o ran dangosyddion megis cyfraddau gweithgarwch, cyfraddau anweithgarwch a diweithdra, ei bod yn anodd bod yn fanwl gywir ynglŷn â'r effeithiau ar gyfraddau wrth symud ymlaen. Mae hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd mawr sy'n gysylltiedig â'r rhagolygon macro-economaidd a allai gael effaith sylweddol ar berfformiad economaidd cyffredinol. Yn yr achosion hyn, fel y nodir yn fanylach isod, efallai y byddai'n well i ganlyniadau PERTHYNOL penodol, yn hytrach na chanlyniadau absoliwt, o ran newidiadau mewn cyfraddau.

**Newid mewn Galwedigaethau a'r Sgiliau Gofynnol**

Mae'r siart isod yn dangos y newid ym mhroffil y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi ym Môn yn yr Achos Sail. Mae'n dangos yn glir bod y galw am grwpiau â mwy o sgiliau yn codi tra mae'r galw am weithwyr â llai o sgiliau yn gostwng:





Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd y gyflogaeth sy'n cael ei chreu a hefyd ansawdd y swyddi a'u rôl yn gwella sgiliau'r llafurlu. Mae manteision yn gysylltiedig â hyn, o ran enillion a hefyd o ran gwerth ychwanegol crynswth i bob gweithiwr cyflogedig.

Mae'r ail siart, o'r dadansoddiad o'r farchnad lafur a gwblhawyd yn ddiweddar i Gynulliad Cymru, yn dangos y bylchau ar yr ochr gyflenwi a'r

niferoedd dros ben ar gyfer y gwahanol setiau sgiliau wrth gymharu cyfansoddiad gweithlu 2009 â galw 2025. [8]

Mae'n amlwg os na fydd cyfansoddiad y gweithlu'n newid (mewn perthynas â lefelau sgiliau) cyn 2025, y bydd prinder galwedigaethau sgiliau uwch a galwedigaethau gwasanaeth ym mhob senario, ond y bydd y sefyllfa gymaint yn waeth ar gyfer y senarios Ynys Ynni. Ar y llaw arall, byddai gormodedd o weithwyr ar lefel gwaith elfennol a phrosesu.





Mae hyn yn BWYSIG oherwydd mae'n awgrymu ei bod yn bosibl, heb lawer iawn o uwchsgilio, na fyddai'r gwaith newydd a fyddai'n cael ei greu'n cael cymaint o effaith â'r disgwyl ar gyfraddau anweithgarwch a diweithdra yn y farchnad lafur leol. Mae'n pwysleisio bod posibilrwydd cryf y bydd gwahaniaeth mawr iawn rhwng sgiliau'r llafurlu ym Môn a'r sgiliau sydd eu hangen.

Felly, bydd yr effeithiau'n tueddu i fod mewn cysylltiad â chanlyniadau economaidd (e.e. gwerth ychwanegol crynswth, creu gwaith), yn hytrach nag adfywio / canlyniadau cymdeithasol (e.e. diweithdra, anweithgarwch).

Os edrychwn ar y darlun hyd at 2016 yn hytrach na 2025, mae bylchau mewn sgiliau yn gyffredin ym mhob categori bron, a hynny ym mhob sefyllfa ar wahân i'r achos sail. Mewn gwirionedd, maent yn fwy amlwg nag yn 2025. Ymddengys mai'r rheswm am hyn yw'r uchafbwynt dros dro yn y sgiliau adeiladu sydd eu hangen yn senarios yr Ynys Ynni.

[8] Llywodraeth Cynulliad Cymru. *North West Wales Labour Market Analysis*. Ebrill 2011.




*Effeithiau Ychwanegol Net*

Mesurir yr effeithiau ychwanegol net ar y farchnad lafur yn y tabl isod. Mae'n dangos bod camgymharu sgiliau yn amlwg iawn hyd at 2016 ar gyfer gweithwyr medrus, gan adlewyrchu'r galw am nifer sylweddol o weithwyr adeiladu. Yn yr hirdymor, mae'r camgymharu sgiliau yn fwyaf amlwg ar gyfer gweithwyr proffesiynol, rheolwyr ac uwch swyddogion – y galwedigaethau lefel uwch i raddau helaeth iawn.

| **Gormodedd/Bylchau mewn Sgiliau - 2025 o gymharu â 2009** | | | |
|---|---|---|---|
| | AS | S1 | S2b |
| 1 Rheolwyr ac uwch swyddogion | -195 | -369 | -552 |
| 2 Proffesiynol | -174 | -306 | -371 |
| 3 Proff. a Thech. Cysylltiedig | -112 | -241 | -354 |
| 4 Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 471 | 324 | 264 |
| 5 Medrus | 525 | 323 | 235 |
| 6 Gwasanaethau | -181 | -219 | -268 |
| 7 Gwerthiant | 61 | -18 | -142 |
| 8 Proses | 343 | 212 | 145 |
| 9 Elfennol | 319 | 216 | 109 |
| POB UN | **1,057** | **-78** | **-935** |

| **Gormodedd/Bylchau mewn Sgiliau - 2016 o gymharu â 2009** | | | |
|---|---|---|---|
| | AS | S1 | S2b |
| 1 Rheolwyr ac uwch swyddogion | 16 | -430 | -523 |
| 2 Proffesiynol | -12 | -228 | -265 |
| 3 Proff. a Thech. Cysylltiedig | 48 | -170 | -229 |
| 4 Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 280 | 59 | 17 |
| 5 Medrus | 362 | -791 | -850 |
| 6 Gwasanaethau | -37 | -82 | -107 |
| 7 Gwerthiant | 47 | -33 | -104 |
| 8 Proses | 245 | -63 | -101 |
| 9 Elfennol | 218 | -37 | -93 |
| POB UN | **1,166** | **-1,774** | **-2,255** |

*Dylanwad mewnfudo a chymudo ar fylchau mewn sgiliau*

Wrth gwrs, mae angen bod yn ofalus wrth ystyried y siartiau hyn – maent yn un ffordd o dynnu sylw at gamgymharu sgiliau yn yr economi leol / y gweithlu lleol.

Mewn gwirionedd bydd y bylchau hyn mewn sgiliau yn llawer llai amlwg gan fod marchnadoedd llafur yn llawer iawn mwy na'r dalgylch ar gyfer y llafurlu lleol, ac ar gyfer rhai swyddi sgiliau medrus mae'n wir dweud y byddai llafur yn cael ei dynnu i'r ardal o rannau eraill o'r wlad a hyd yn oed o'r byd.

Felly, mewn gwirionedd, byddai dylifiad o weithwyr dros dro, mewngymudwyr a mewnfudwyr i fodloni'r galw tymor byr yn y sector adeiladu. Yn ychwanegol at hyn, bydd y gweithlu'n newid rhwng 2009 a 2016/25, wrth i bobl ifanc a mewnfudwyr ymuno â gweithlu Môn ac wrth i bobl sy'n ymddeol ac allfudwyr adael yr ynys. Mae'r farchnad lafur yn newid o hyd, yn wahanol i'r darlun sefydlog sy'n cael ei ragdybio gan y dadansoddiad.

Mae hyn yn debygol o leihau'r prinder/gormodedd a fydd yn wynebu cyflogwyr fel y gwelwn yma, gan ddibynnu ar lefelau sgiliau'r rhai sy'n ymuno â'r gweithlu ac yn ei adael.

Yn yr un modd, bydd rhywfaint o newid i'r cyfeiriad 'arall', wrth i weithwyr ifanc llai profiadol ymuno â'r gweithlu ac wrth i weithwyr hŷn mwy profiadol ymddeol. (Mae hyn wedi ei nodi'n barod fel problem bosibl i'r diwydiant niwclear lle disgwylir i 50 i 70% o'r staff yng ngalwedigaethau uwch 1 i 4 ymddeol cyn 2025). [9]

Efallai mai'r peth mwyaf perthnasol y mae'r dadansoddiad yn ei ddangos yw'r gwahaniaeth posibl rhwng y canlyniadau economaidd a'r canlyniadau i'r farchnad lafur. Er y dylai'r holl ddatblygiadau hyn gael effaith gadarnhaol iawn ar economi Môn, oherwydd yr elfen GOLLI, a natur hynod integredig yr economi leol, gallai'r manteision fod yn llawer iawn llai o ran y canlyniadau i'r farchnad lafur. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwynt y bydd trigolion lleol yn cael budd, ond na fyddant yn cael budd i'r un graddau, yn anad dim oherwydd maint y galw am lafur – yn enwedig yn y sector adeiladu – a natur hynod arbenigol yn aml y sgiliau sydd eu hangen – yn enwedig yn y diwydiant niwclear.


**Cyfraddau Diweithdra**

Gan droi at yr effaith bosibl ar gyfraddau diweithdra, rhwng 2008 a 2009, gwelwyd cynnydd sydyn yng nghyfradd ddiweithdra Môn o gymharu â

[9] Ffynhonnell: *Power People: The Civil Nuclear Workforce* (Cogent, 2009)

Chymru gyfan. Mae'r cynnydd wedi arafu ond mae'r lefel gyffredinol yn dal yn uwch na lefelau'r DU.

Disgwylid i gynlluniau'r Ynys Ynni gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau diweithdra Môn, o gymharu â Chymru gyfan.




Ffynhonnell: Amcangyfrifon Seiliedig ar Fodel o Ddiweithdra yn yr Arolwg o'r Llafurlu

Mae perfformiad Ynys Môn yn ddigon gwael o gymharu â Phrydain mewn nifer o ddangosyddion eraill hefyd, yn fwyaf arbennig:

- o Cyfran uwch o'r llafurlu yn cael lwfans ceisio gwaith
- o Cyfraddau diweithdra hirdymor yn uwch.

Yn achos pob un o'r mesurau hyn, dylai'r sefyllfa ddechrau gwella'n raddol dan raglen Ynys Ynni Ynys Môn. Fel y nodwyd yn gynharach, efallai y bydd yr effaith ar y canlyniadau i'r farchnad lafur yn llai amlwg oherwydd yr elfen o golli.

Mae hyn yn ein gadael gyda'r cwestiwn I BA RADDAU y gallai'r dangosyddion hyn ar gyfer y farchnad lafur wella. Mae hwn yn gwestiwn anos i'w ateb oherwydd y gwahanol elfennau o ansicrwydd sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y rhagolygon economaidd. O ganlyniad, gallai cyfraddau diweithdra lleol a chenedlaethol barhau'n uchel.

Fodd bynnag, o safbwynt cymharol, disgwylid y byddai'r GWAHANIAETH rhwng y cyfraddau lleol a chyfraddau Prydain yn lleihau ac, mewn gwirionedd, dylid anelu at ddileu'r gwahaniaethau hyn, fel bod cyfraddau Môn yn gostwng o bosibl i fod yn is na chyfraddau Prydain. Un o'r dangosyddion allweddol yma fydd cyfraddau hawlwyr budd-dal hirdymor, sy'n llawer iawn uwch.

Yn fyr, awgrymir mai'r targed mewn perthynas â'r dangosyddion hyn ar gyfer y farchnad lafur yw y dylent ostwng i'r cyfraddau dan sylw ar gyfer

Prydain – neu'n is – gan dderbyn, oherwydd y rhagolygon economaidd, bod rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â beth yn union allai'r cyfraddau hyn fod.


**Gweithgarwch Economaidd a Chyfraddau Hunangyflogaeth**

*Gweithgarwch economaidd*

Mae rhywfaint o gymhlethdod wrth geisio dehongli symudiadau mewn rhai dangosyddion ar gyfer y farchnad lafur. Er enghraifft, gallai diweithdra fod yn gymharol isel – fodd bynnag, gallai hyn adlewyrchu cryfder y farchnad lafur (galw mawr am lafur) neu wendid (mae rhai unigolion wedi dod oddi ar y gofrestr gan eu bod wedi penderfynu nad oes gobaith iddynt ddod o hyd i waith).

Mae'n bwysig edrych felly ar gasgliad eang o ddangosyddion ar gyfer y farchnad lafur. Unwaith eto, dylid anelu at sicrhau bod y dangosyddion hyn yn dod yn debycach i gyfraddau Prydain a / neu Gymru gan ddibynnu ar y dangosydd dan sylw.


Mae'r siart isod yn dangos bod cyfradd weithgarwch economaidd Ynys Môn ychydig yn is na'r lefel genedlaethol, ar ôl gostwng rhywfaint yn 2008. Mae'r gyfran o drigolion Ynys Môn sy'n weithwyr cyflogedig wedi dilyn y patrwm ac ar hyn o bryd mae'n llawer agosach at y gyfradd genedlaethol nag yr oedd cyn 2009.




O ran cyfraddau gweithgarwch, mae'n annhebygol y byddai'r cyfraddau ar gyfer Ynys Môn yn cyrraedd rhai Prydain, ond gellid disgwyl y dylent godi i fod yn uwch na'r cyfraddau ar gyfer Cymru.

*Hunangyflogaeth*

Mae cyfraddau hunangyflogaeth yn dal yn llawer uwch na'r lefelau cenedlaethol ac maent wedi codi er 2009, ond nid i'r lefel a gyrhaeddwyd yn 2006:




Wrth i gyfleoedd cyflogedig gynyddu mae'n bosibl y gwelwn ostyngiad cymesur mewn hunangyflogaeth. Nid yw hyn yn beth drwg o reidrwydd, gan fod y gyflogaeth hon i raddau helaeth yn 'anochel' ac yn adlewyrchu prinder swyddi mewn rhannau eraill o'r economi leol.

Yn fyr, bydd llai o effaith i'w gweld ar y canlyniadau i'r farchnad lafur nag ar y canlyniadau economaidd. Fodd bynnag, gyda threigl amser, rhagwelir y bydd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau lleol a chenedlaethol a chyfraddau Prydain yn lleihau gan ffafrio Ynys Môn. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhagolygon economaidd presennol nid yw'n bosibl darogan ag unrhyw sicrwydd beth fydd y cyfraddau hyn.

# canlyniadau posibl Ynys Ynni

Mae'r adran hon yn adolygu canlyniadau'r rhaglen Ynys Ynni ac yn arwain ymlaen o'r dadansoddiad blaenorol sy'n nodi'r canlyniadau economaidd ychwanegol net sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Ynys Ynni a maint yr effeithiau ar y farchnad lafur. Mae hyn yn sail i wneud sylwadau ynglŷn â pha mor real, cyraeddadwy a chynhwysfawr yw canlyniadau penodedig.

Dylid nodi bod nifer o ddangosyddion ehangach yn cael eu defnyddio yn y Fframwaith, ac y bydd y rhain yn anodd i'w mesur. Yn ychwanegol at hyn, oherwydd y ffocws ar ganlyniadau economaidd mae'n anodd dod i gasgliadau AR HYN O BRYD ynglŷn â'r canlyniadau sy'n ymwneud â'r canlynol: 'Cymuned a diwylliant lleol sy'n ffynnu', 'Gwella'r amgylchedd' a 'Seilwaith etifeddol cadarn'.

Felly, mae'n bwysig bod y Fframwaith Etifeddiaeth arfaethedig yn mynd i'r afael â'r agweddau hyn drwy gyfres gydgysylltiedig o bolisïau seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn sail i rwymedigaethau cynllunio er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau anffafriol a gaiff datblygiadau'r rhaglen Ynys Ynni a sicrhau manteision cynaliadwy i'r gymuned.

**'Economi sy'n ffynnu ym Môn ac yng Ngogledd-orllewin Cymru'**

Mae'r canlyniadau penodedig yma fel a ganlyn:

- Cynyddu a chynnal gwerth ychwanegol crynswth ar ôl 2025
- Gostyngiad yng nghyfanswm net y bobl ifanc 16-24 oed sy'n symud o'r ynys
- Sefydlu cysylltiadau â'r Gadwyn Gyflenwi
- Denu buddsoddiad i'r ynys – h.y. Ynys Môn i fod yn ardal y bydd busnesau eisiau lleoli/symud eu busnesau iddi.

*Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC)*

Mae gwaith modelu economaidd Ynys Ynni'n dangos potensial mwyaf i ychwanegu 2,000 o swyddi at economi Ynys Môn, cynnydd o tua 13% ar sail niferoedd 2008. O ganlyniad, byddai targed o gynnydd o 10 – 13% mewn gwerth ychwanegol crynswth absoliwt o gymharu â 2008 erbyn 2025 yn ymddangos yn rhesymol.

Byddai'n fwyaf priodol meincnodi'r twf sylfaenol hwn mewn GYC mewn cysylltiad â thwf GYC dan yr Achos Sail A THWF GYC ar gyfer Cymru yn

ystod yr un cyfnod. Hynny yw, byddai'r lefel twf hon uwchben / yn ychwanegol net at y cymaryddion a nodwyd.

*Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) y pen*

Fodd bynnag, dylid nodi y bydd y gwelliant, o safbwynt CYMHAROL, yn llai gweladwy gan y bydd ardaloedd cymaryddion eraill hefyd yn cynyddu eu GYC. Felly, byddai gwelliannau cyffredinol mewn GYC y pen yn fwy cyfyngedig. Disgwylid i GYC mewn termau absoliwt ym Môn gynyddu i fod yn uwch na'r tueddiadau yn economi Cymru. Fodd bynnag, o'i roi fel mynegrif, ni ddisgwylir i'r ffigur newid llawer o'r lefel bresennol o tua 55%. Fodd bynnag, yn bwysig iawn, NI ddylai'r ffigur hwn ostwng o'r lefel hon. Mae hyn yn cymryd yn ganiataol, er bod cynnydd mewn lefelau allbwn, bod y cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso i ryw raddau – o ran lefel gyffredinol y pen – gan fwy o bobl yn symud i'r ardal.

**Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) Is-ranbarthol yn ôl rhanbarthau economaidd Cymru**
**Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru**

| **Blwyddyn** | | **1999** | **2000** | **2001** | **2002** | **2003** | **2004** | **2005** | **2006** | **2007** | **2008** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mesur** | **Ardal** | | | | | | | | | | |
| Cyfanswm (£ miliwn) | Cymru | 30,912 | 32,068 | 33,658 | 35,355 | 37,299 | 38,993 | 40,485 | 42,424 | 44,541 | 45,514 |
| | ***Ynys Môn*** | ***479*** | ***509*** | ***551*** | ***589*** | ***631*** | ***664*** | ***693*** | ***731*** | ***764*** | ***780*** |
| £ y pen | Cymru | 10,657 | 11,032 | 11,565 | 12,115 | 12,735 | 13,247 | 13,723 | 14,323 | 14,966 | 15,222 |
| | ***Ynys Môn*** | ***7,050*** | ***7,489*** | ***8,121*** | ***8,686*** | ***9,269*** | ***9,719*** | ***10,121*** | ***10,651*** | ***11,110*** | ***11,333*** |
| Mynegai (Y DU=100) | Cymru | 77.3 | 77.1 | 77.1 | 76.7 | 76.2 | 75.5 | 75.7 | 75.2 | 74.6 | 74.1 |
| | ***Ynys Môn*** | ***51.2*** | ***52.4*** | ***54.1*** | ***55*** | ***55.5*** | ***55.4*** | ***55.8*** | ***55.9*** | ***55.4*** | ***55.2*** |

*Creu gwaith*

Mesur allweddol arall fyddai nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a grëwyd yn economi Ynys Môn. Yma gellid darparu gwybodaeth ar gyfer targedau gan ddefnyddio model Senario 2b sy'n dangos 2,000 yn rhagor o swyddi o gymharu â'r achos sail. Gellid monitro'r rhain yn gymharol rwydd drwy geisiadau cynllunio, trafodaethau gyda chyflogwyr a data BRES.

*Cadw pobl ifanc*

Mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn awgrymu bod y gyfran ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed yn sefydlog ar y cyfan. Mae'r boblogaeth oed gweithio gyffredinol hefyd yn sefydlog ar y cyfan. O edrych ymlaen, ni ddisgwylir i'r datblygiadau gael effaith sylweddol uniongyrchol ar y canlyniad hwn – er ei bod yn bosibl y byddai'r allfudo wedi parhau ar raddfa gyflymach dan yr Achos Sail.

Felly, dan senario'r Ynys Ynni, disgwylir i Ynys Môn gadw cyfran bresennol y bobl ifanc yn y grŵp oedran hwn. Mae rhyw gymaint o bosibilrwydd y gallem weld effaith fach, ond heb fod yn fwy na 12% o'r boblogaeth oed

gweithio erbyn 2025, wrth i'r nifer sydd mewn addysg bellach gynyddu ac wrth i fwy o bobl fanteisio ar swyddi anuniongyrchol a grewyd.


| **amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ONS. Cedwir Hawlfraint y Goron [o Nomis ar 17 Ebrill 2011] | | | | | | |
| math o ardal | Awdurdodau lleol: sirol / unedol | | | | | |
| enw'r ardal | Ynys Môn | | | | Amc. | |
| **Dyddiad** | **Cyfanswm** | **10 - 14 oed** | **15 - 19 oed** | **20 - 24 oed** | **16 - 24** | |
| 2005 | 68,500 | 4,500 | 4,300 | 3,100 | **6540** | 9.55% |
| 2006 | 68,600 | 4,400 | 4,300 | 3,300 | **6740** | 9.83% |
| 2007 | 68,800 | 4,200 | 4,400 | 3,400 | **6920** | 10.06% |
| 2008 | 68,800 | 4,100 | 4,400 | 3,600 | **7120** | 10.35% |
| 2009 | 68,800 | 4,000 | 4,200 | 3,700 | **7060** | 10.26% |

*Mewnfuddsoddiad*

Gellir monitro'r dangosydd hwn yn uniongyrchol a chael gwybodaeth ar ei gyfer drwy ymgynghori â buddsoddwyr.

*Twf yn y boblogaeth oed gweithio*

Dylai'r cyfleoedd cyflogaeth newydd arwain at ddylifiad o lafur (gydag effeithiau ychwanegol ar y farchnad dai). Felly, disgwylir i gyfran y bobl 16-64 oed, sydd wedi disgyn i 56% yn 2009, gynyddu i tua 61-62% o'r boblogaeth erbyn 2015. Mae hyn yn dod â ni yn ôl i'r lefelau a welwyd yn 2005, fel y nodir yn yr Adroddiad Sylfaenol, sy'n dangos bod cyfran y bobl 16-64 oed wedi aros yn weddol gyson, sef tua 61-62% o'r boblogaeth, ond ei bod wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf.




**'Mwy o lewyrch'**


Mae'r canlyniadau fel a ganlyn:

- Cynnydd mewn enillion wythnosol cyfartalog
- Lleihau tlodi tanwydd drwy hybu ynni adnewyddadwy (h.y. arbed ynni, cynhyrchu ynni ac ati)
- Lefelau sgiliau uwch
- Lleihau anweithgarwch economaidd

- Denu pobl economaidd weithgar yn ôl i'r Ynys


*Enillion cyfartalog*

Dylai Ynys Ynni weld y swyddi sy'n cael eu darparu'n cael eu huwchsgilio – ac o ganlyniad i hyn dylai cyflogau cyfartalog ddechrau ymdebygu i gyfartaledd cyffredinol Cymru. Mae'r duedd dros gyfnod i'w gweld yn y tabl isod. Mae'n anodd bod yn fanwl gywir yma, ond unwaith eto disgwylid y byddai cyfraddau cyflogau yn dechrau mynd i'r un cyfeiriad â chyfradd Cymru – a mynd yn uwch o bosibl na'r gyfradd honno.




*Codi lefelau sgiliau – y galw (o ran gweithlu)*
Mae'r cynnydd ychwanegol net ar gyfer galwedigaethau o safbwynt galw am lafur, wedi ei drafod yn barod (**->gweler yr effeithiau ar y farchnad lafur, t42**),

Mae'r rhagamcanion yn cynnwys amcangyfrifon o effeithiau ychwanegol net a cheir crynodeb o'r rhain hefyd yn y siart isod.



*Codi lefelau sgiliau – y cyflenwad (o ran preswylfa)*

Er hyn, mae'n bwysig sylweddoli mai amcangyfrifon yn seiliedig ar y GALW yw'r rhagamcanion uchod ac nad ydynt yn gwneud unrhyw dybiaethau ynglŷn â newid yn y cyflenwad. Fodd bynnag, mae'r rhagamcanion galwedigaethol yn lwfio ar wahân ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu yn unol â thueddiadau / rhagamcanion cenedlaethol. Mae'r effaith 'uwchsgilio' hon yn cael ei chynnwys ym mhob senario a gellir ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer amcangyfrifon yr ochr gyflenwi.

Mae'r effeithiau uwchsgilio galwedigaethol wedi cael eu cynnwys yn y model ac maent wedi datblygu o dybiaethau a nodwyd yn amcangyfrifon Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth Prifysgol Warwick o sut y bydd y proffiliau sgiliau (wedi eu dosbarthu i'r 9 categori galwedigaethol) yn newid ar sail diwydiannau unigol yn ystod y cyfnod o 2007 i 2017. Ceir manylion am yr effeithiau uwchsgilio cyffredinol hyn ar yr ochr gyflenwi llafur yn y tabl isod. Er enghraifft, mae hyn yn dangos y bydd cynnydd o 3% mewn rheolwyr ac uwch swyddogion yn ystod cyfnod y rhagamcanion. Mae hyn ar wahân i'r swyddi ychwanegol a grëwyd yn y senarios ac mae'n adlewyrchu mwy o hyfforddiant sgiliau yn ogystal ag effeithiau gwaith newydd. Bydd angen i'r ffigurau sylfaenol hefyd ystyried data o Gyfrifiad Poblogaeth 2011.

**Dadansoddiad o safbwynt y Cyflenwad Llafur o Lefelau Sgiliau Cyflogaeth sydd eu hangen Dros Gyfnod**

| | 2009 | 2011 | 2016 | 2021 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 Rheolwyr ac uwch swyddogion | 15% | 16% | 16% | 17% | 18% |
| 2 Proffesiynol | 14% | 14% | 15% | 15% | 16% |
| 3 Proff. a Thech. Cysylltiedig | 14% | 15% | 15% | 15% | 16% |
| 4 Gweinyddol ac Ysgrifenyddol | 10% | 10% | 9% | 8% | 7% |
| 5 Medrus | 10% | 10% | 9% | 9% | 8% |
| 6 Gwasanaethau | 9% | 10% | 10% | 10% | 11% |
| 7 Gwerthiant | 8% | 8% | 8% | 7% | 7% |
| 8 Proses | 7% | 6% | 6% | 6% | 6% |
| 9 Elfennol | 13% | 13% | 12% | 12% | 11% |
| | **100%** | **100%** | **100%** | **100%** | **100%** |

*Lefelau gweithgarwch economaidd*

Ymdrinnir yn llawnach â'r effeithiau hyn yn yr adran flaenorol (**->effeithiau ar y farchnad lafur).** Bydd canlyniadau i'r farchnad lafur yn dangos llai o effaith na'r canlyniadau economaidd. Dros gyfnod, disgwylir y bydd y gwahaniaeth rhwng cyfraddau lleol a chyfraddau Prydain yn lleihau gan ffafrio Ynys Môn. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r rhagolygon economaidd presennol nid yw'n bosibl darogan ag unrhyw sicrwydd beth allai'r cyfraddau hyn fod. Disgwylid gwelliannau mewn nifer o wahanol ddangosyddion ar gyfer y farchnad lafur gan gynnwys: diweithdra, cyfraddau gweithgarwch/anweithgarwch a diweithdra hirdymor.

# asesu risg

Mae'r adran hon yn adolygu'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni canlyniadau. Mae'n dilyn dadansoddiad risg safonol, gan nodi mesurau lliniaru ac asesu risg ar ôl lliniaru.

Wrth gyflawni'r dasg hon rydym wedi defnyddio matrics asesu risg priodol. Ar ei lefel symlaf mae matrics neu dabl asesu risg yn ffordd syml o osod gwahanol brosiectau posibl mewn trefn o ran eu budd posibl a risgiau neu gostau tebygol eu gweithredu. Gall rhai prosiectau fod yn atyniadol iawn, o ran y manteision posibl y maent yn eu cynnig, ond bod ganddynt anawsterau gweithredu difrifol. Gall eraill fod o werth isel o ran effaith, ond yn hawdd i'w gweithredu.

Mae'r templed yn nodi natur y risg ar ffurf matrics tebygolrwydd sydd i'w weld isod. Mae'r matrics syml hwn yn cynnwys ystyriaeth o'r tebygolrwydd o risg a hefyd o'i heffaith. Y rhai sy'n sgorio 9 yw'r meysydd risg uchaf ac sydd angen eu monitro agosaf.

**Tebygolrwydd + Effaith = Pwysoliad risg**


| **Matrics Asesu Risg** | | **Effaith** | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** |
| **Tebygolrwydd** | **Isel** | 1 | 3 | 6 |
| | **Canolig** | 2 | 5 | 8 |
| | **Uchel** | 4 | 7 | 9 |

Yn ychwanegol at hyn, mae'r matrics hwn wedi cael ei ymestyn i gynnwys mesurau lliniaru posibl a allai gael eu gweithredu. Mae hyn yn addasu'r asesiad cychwynnol ac mae'n bosibl mai'r effaith ar ôl lliniaru sy'n peri'r pryder mwyaf.

Mae'r dull gweithredu'n ystyried arferion da sydd wedi cael eu cyhoeddi, gan gynnwys, yn fwyaf arbennig, y llyfryn a gynhyrchwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, 'The Orange Book: Management of Risk - Principles and Concepts'.

Nodir prif gamau'r broses rheoli risg yn y siart drosodd.

**Camau'r Broses Rheoli Risg**




Y cam cyntaf, cyn nodi'r risgiau, yw sefydlu:

* beth rydym yn ceisio ei gyflawni?
* i ble rydym yn mynd?
* beth yw ein canlyniadau arfaethedig?

Pwrpas camau i fynd i'r afael â risgiau yw rheoli'r risgiau, gan ddod â hwy i lefelau derbyniol yn hytrach na'u dileu. Fe welwch yma bedwar penderfyniad y gellir eu gwneud er mwyn rheoli'r risgiau a nodir drosodd:

1. Terfynu – penderfynu peidio â chymryd risg. Lle bo'r risgiau'n fwy na'r manteision posibl, terfynu'r risg drwy wneud pethau'n wahanol a thrwy hynny ddileu'r risg, lle mae'n ymarferol gwneud hynny.

2. Goddef – penderfynu derbyn y risg. Gall hyn ddigwydd lle mae'r tebygolrwydd neu'r effaith mor isel fel y byddai'r gost o'i reoli yn fwy na'r risg. Bydd y risgiau hynny sydd â sgôr o 3 ac is yn dod i'r categori hwn.

3. Trosglwyddo – er enghraifft yswiriant, rhoi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth ar gontract neu dalu i drydydd parti ei wneud. Wrth gwrs, mae sawl maes busnes a risgiau sy'n gysylltiedig ag enw da na ellir eu trosglwyddo.

4. Trin (neu liniaru) – yn ymarferol, dyma'r ymateb mwyaf cyffredin i feysydd risg. Mae'n cael ei wneud drwy leihau'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd (er enghraifft, camau ataliol) neu drwy leihau'r effaith.

Ceir manylion wedyn am y prif risgiau a'r camau lliniaru posibl.

| Rhif y Risg | Maes y Risg | Amlygiad a Nodwyd | Lefel y risg cyn lliniaru | | | Trefniadau lliniaru risg | Lefel y risg ar ôl lliniaru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Tebygolrwydd | Effaith | Pwysoliad | | Tebygolrwydd | Effaith | Pwysoliad |
| 01 | Y farchnad lafur | Y manteision lleol yn brin gan fod y swyddi sy'n cael eu creu yn cael eu cymryd gan fewnfudwyr | U | C | 8 | Hyfforddiant sgiliau, addysg ac ymwybyddiaeth, rhaglenni i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi | C | C | 5 |
| 02 | Tai | Mewnfudo sylweddol yn codi prisiau tai ac yn cynyddu problemau tai fforddiadwy i bobl leol | C | C | 5 | Dadansoddiad o'r angen am dai a buddsoddiad priodol yn y stoc dai, ynghyd â monitro safbwyntiau cymunedol ar lefel leol, gan gynnwys cynghorwyr. | I | C | 3 |
| 03 | Tai fforddiadwy | Cyfraddau adeiladu tai cymdeithasol newydd yn dal yn isel a lefel yr angen heb ei ddiwallu'n cynyddu | U | C | 8 | Monitro rhestrau aros am dai, a buddsoddi yn y stoc dai cymdeithasol | I | C | 3 |
| 04 | Diwylliant | Mewnfudo sylweddol yn cael effaith negyddol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith | C | C | 5 | Cynyddu cyfleoedd i bobl leol fanteisio a thrwy hynny leihau lefelau allfudo | C | C | 5 |
| 05 | Y gymuned | Tensiynau'n datblygu rhwng mewnfudwyr a'r gymuned sefydlog, yn enwedig yng nghyswllt mynediad at dai | I | C | 2 | Addysg, ymwybyddiaeth a buddsoddiad yn y stoc dai er mwyn sicrhau cyflenwad addas | I | C | 2 |
| 06 | Yr economi | Galw sylweddol am lafur yn yr Wylfa yn codi cyfraddau cyflogau lleol ac yn cynyddu prinder sgiliau mewn rhannau eraill o'r economi | C | C | 5 | Gweithredu ar y cyd er mwyn asesu'r prinder sgiliau cyfredol a disgwyliedig a'r sectorau sy'n wynebu'r risg mwyaf, gan gynnwys cysylltu â chyflogwyr, hyfforddiant a sefydliadau addysg | I | C | 2 |
| 07 | Economi carbon isel | Buddsoddiad cysylltiedig mewn sectorau carbon isel eraill ddim i'w weld / yn gyfyngedig | C | U | 8 | Mynd i'r afael â chyfyngiadau buddsoddi posibl, safleoedd, adeiladau, sgiliau a seilwaith | C | C | 5 |
| 08 | Seilwaith | Cyfyngiadau seilwaith yn effeithio ar y gallu i ddenu buddsoddiad | C | U | 8 | Materion seilwaith a allai fod yn arwyddocaol i gael eu hystyried, gan gynnwys capasiti'r bont | C | C | 5 |

| Rhif y Risg | Maes y Risg | Amlygiad a Nodwyd | Lefel y risg cyn lliniaru | | | Trefniadau lliniaru risg | Lefel y risg ar ôl lliniaru | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Tebygolrwydd | Effaith | Pwysoliad | | Tebygolrwydd | Effaith | Pwysoliad |
| **09** | Cynllunio a rheoleiddio | Oedi sylweddol cyn cyflawni buddsoddiadau allweddol | **C** | **U** | **8** | Cynllunio ymlaen llaw er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gweithredol yn gallu blaenoriaethu'n effeithiol a sicrhau caniatâd i godi adeiladau newydd yn y maes Niwclear yn unol â disgwyliadau buddsoddwyr | **C** | **C** | **5** |
| **10** | Amgylchedd carbon isel | Methu â dylanwadu ar ymddygiad trigolion | **C** | **U** | **8** | Addysg, ymwybyddiaeth a rhaglenni arweinyddiaeth, gan gynnwys ymgysylltu ag ysgolion | **C** | **C** | **5** |
| **11** | Polisi sgiliau | Anawsterau wrth geisio sicrhau'r buddsoddiad sydd ei angen mewn sgiliau | **C** | **U** | **8** | Sefydli blaenoriaethau clir mewn rhaglenni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol â chefnogaeth ac arweiniad Gweinidogion | **C** | **C** | **5** |

# dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r tabl isod yn nodi'r dangosyddion perfformiad allweddol arfaethedig ar gyfer Ynys Ynni Ynys Môn. Maent yn ffurfio rhestr gynhwysfawr o ddangosyddion ar gyfer pob agwedd ar y rhaglen – cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Nodir nifer o GAFEATAU fel a ganlyn:

1. Efallai fod yr effeithiau sy'n uwch na'r sefyllfa bresennol yn ymddangos yn gymharol brin, ond fel y nodwyd yn gynharach mae angen cofio bod:
    a. Llawer iawn o gapasiti yn yr economi leol wedi ei golli yn y dirwasgiad diweddar
    b. Yr Wylfa, er ei bod i fod i gael ei chomisiynu, yn weithredol ar hyn o bryd
    c. Y rhan fwyaf o'r swyddi ychwanegol ar gyfer rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn yn gysylltiedig â gorsaf newydd yn yr Wylfa (fydd â lefelau cyflogaeth is).
    ch. Angen gosod y gwelliannau sy'n deillio o'r rhaglen yng nghyd-destun yr economi genedlaethol ac economi'r DU sydd hefyd yn gwella y naill flwyddyn ar ôl y llall (mwy o allbynnau, gwell sylfaen sgiliau ac ati).
    d. Gwahaniaethau economaidd rhwng rhanbarthau sydd ar y blaen a rhanbarthau sydd ar ei hôl hi yn tueddu i leihau mewn dirwasgiad a chynyddu yn ystod cyfnodau o dwf.

    Felly, ni ddylid gorbwysleisio effeithiau economaidd y rhaglen.
2. Mae pob agwedd ar y rhaglen wedi eu cynnwys ac eithrio seilwaith. Yma, oherwydd natur cymharol 'dalpiog' y buddsoddiad dan sylw, cytunwyd gyda'r Cyngor i beidio â'i ystyried yn yr adroddiad hwn.
3. Nid yw'r rhestr yn DRWYADL. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar greu rhestr y gellir ei rheoli o ddangosyddion perfformiad allweddol y gellir eu holrhain yn gymharol rwydd, sydd â chysylltiad agos â'r

canlyniad dan sylw ac sy'n dod o ffynonellau data cyhoeddedig sy'n gymharol rwydd i gael mynediad atynt.

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

| | **Dangosydd** | **Canlyniad / targed** |
|---|---|---|
| ***1.Economi sy'n Ffynnu ym Môn ac yng Ngogledd-orllewin Cymru:*** | | |
| 1.1 | Gwerth ychwanegol crynswth | Cynnydd o 10-13% o gymharu â'r achos sail / tuedd Cymru erbyn 2025 |
| 1.2 | GYC y pen | GYC y pen o gymharu â'r Deyrnas Unedig yn cael ei gadw ar lefel o 55% |
| 1.3 | Creu gwaith | Creu hyd at 2,000 o swyddi ychwanegol net erbyn 2025 |
| 1.4 | Cadw pobl iau | Pobl 16-24 oed fel % o gyfanswm y boblogaeth yn sefydlogi ar 10% |
| 1.5 | Poblogaeth oed gweithio | Cyfran y bobl 16-64 oed yn cynyddu i 61-62% o'r boblogaeth erbyn 2015. |
| ***2. Mwy o Ffyniant*** | | |
| 2.1 | Enillion | Cyfraddau'n dechrau mynd i'r un cyfeiriad â chyfradd Cymru |
| 2.2 | Sgiliau | Cynnydd o 3% o leiaf yng nghyfran y gweithlu (o gymharu â lefelau 2008) ar gyfer SOCs 1-3 |
| 2.3 | Diweithdra | Y gyfran sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn lleihau i'r un gyfran â Chymru |
| 2.4 | Cyfraddau gweithgarwch | Cynnydd i o leiaf 1% yn uwch na chyfradd Cymru |
| 2.5 | Diweithdra hirdymor | Lleihau i'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan |
| ***3. Diwylliant lleol sy'n ffynnu*** | | |
| 3.1 | Siaradwyr Cymraeg | Cyfran y siaradwyr Cymraeg yn cael ei chadw ar y lefel bresennol, gyda rhwng 60 a 65% o'r boblogaeth (3+ oed) yn gallu siarad Cymraeg |
| 3.2 | Yr angen am dai | Lefel yr angen am dai, y ceir tystiolaeth ohono yn adran dai y Mynegai Amddifadedd Lluosog, yn dangos gwelliant sylweddol o gymharu â Chymru |
| 3.3 | Y farchnad dai yn ffynnu | Data prisiau tai y Gofrestrfa Dir yn dangos gwelliant sy'n cael ei gynnal o gymharu â Chymru |
| ***4. Gwell sefyllfa amgylcheddol*** | | |
| 4.1 | Dyfodol carbon isel | Allyriadau carbon yn gostwng (11.3 yn 2008) o fod yn uwch i fod yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (10.8 yn 2008) |
| | | |

# casgliadau

Mae'r ddogfen hon yn ceisio rhoi dadansoddiad tryloyw a dibynadwy o gyflwr presennol economi Ynys Môn. O'r gwaelodlin hwn datblygwyd rhagamcanion sy'n seiliedig ar nifer o senarios o'r Rhaglen Ynys Ynni.

Pennwyd Dangosyddion Perfformiad Allweddol er mwyn mesur y canlyniadau posibl hyn.

Er bod hyn yn darparu asesiad gwrthrychol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r sefyllfa bresennol a'r sefyllfa bosibl yn y dyfodol o safbwynt economi Ynys Môn a'r economi ehangach, mae angen i'r Fframwaith Etifeddiaeth nodi'r ffordd orau o gyflawni hyn.

Mae hyn o ganlyniad i'r buddsoddiad uniongyrchol mewn adeiladu a gweithredu a chynnal datblygiadau ynni carbon isel newydd, a hefyd drwy ysgogi cymaint ag sy'n bosibl o gyfleoedd ar gyfer hyfforddiant lleol, cyflogaeth a'r gadwyn gyflenwi o ddatblygiadau o'r fath.

Bydd angen i'r dadansoddiad o dystiolaeth a'r DPA yn yr adroddiad hwn fod yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith Etifeddiaeth cynhwysfawr hwn, gan ddefnyddio canlyniadau'r Rhaglen Ynys Ynni, a amlinellwyd yn adran 7 o'r adroddiad hwn. Bydd angen i hyn gynnwys casgliad o gamau gweithredu diffiniedig a chytunedig yn llifo o ddatblygiadau perthynol y Rhaglen Ynys Ynni, yn cael eu cyfnerthu gan gyfres o bolisïau cynllunio ategol, ac y gellir eu mesur â'r DPA sy'n cael eu hawgrymu yn adran 9 o'r adroddiad hwn.

Gallai'r polisïau cenedlaethol a lleol hyn, gael eu defnyddio wedyn fel sail i'r broses gynllunio statudol er mwyn cyflawni'r datblygiadau hyn a lliniaru eu heffeithiau posibl. Gallent hefyd awgrymu sut y gellir llunio camau er mwyn sicrhau bod cymunedau Ynys Môn yn cael y budd mwyaf yn yr hirdymor o fuddsoddiadau o'r fath.

# atodiadau

# A1 Y prif dybiaethau

1. Ffigurau cyflogaeth BRES → Blwyddyn sail 2009; rhagamcanion yn mynd hyd at 2024

2. Sectorau Diwydiant sy'n cael eu hystyried (Codau Digid Unigol SIC 2007):

| |
|---|
| A+: Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, yn cynnwys amcangyfrifon o swyddi 0100 amaethyddiaeth |
| B : Mwyngloddio a chwarela |
| C : Gweithgynhyrchu |
| D : Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru |
| E : Rheoli cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, gwastraff a gweithgareddau adfer |
| F : Adeiladu |
| G : Masnach gyfanwerthu ac adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur |
| H : Trafnidiaeth a storio |
| I : Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd |
| J : Gwybodaeth a chyfathrebu |
| K : Gweithgareddau ariannol ac yswiriant |
| L : Gweithgareddau eiddo tiriog |
| M : Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol |
| N : Gweithgareddau gweinyddiaeth a gwasanaethau cymorth |
| O : Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol |
| P : Addysg |
| Q : Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol |
| R : Y celfyddydau, adloniant a hamdden |
| S : Gweithgareddau gwasanaeth eraill |

Y prif sectorau ar gyfer y modelu hwn yw D ac F, sy'n adlewyrchu effeithiau Trawsfynydd a'r Wylfa. Mae cyflogaeth o ganlyniad i effeithiau lluosydd wedi ei ddosbarthu ar draws y sectorau gwasanaeth.

3. Senarios sy'n cael eu hystyried:

   - Achos Sail: rhagamcanion yn seiliedig ar 2009, gydag addasiadau ar gyfer y newidiadau canlynol y gwyddys amdanynt:

      i. Cau Alwminiwm Môn yn 2008
      ii. Datgomisiynu Trawsfynydd gan ddilyn amserlen gyflymach (hyd at 2014)
      iii. Datgomisiynu'r Wylfa wedi ei ohirio, dechrau yn 2013

iv. Gwaith gweithgynhyrchu arall y gwyddys y bydd yn cau ar ôl 2008 yn Ynys Môn / Ardal Menai
v. Swyddi ychwanegol net o ganlyniad i symud swyddi Llywodraeth Cynulliad Cymru i Gyffordd Llandudno
vi. Swyddi ychwanegol parc masnachol Mochdre a chanolfan feddygol Abergele

- Senario 1: Adeilad newydd Dwy Uned wedi ei godi ar gyfer yr Wylfa, ynghyd â'r Achos Sail

(Nifer y swyddi wedi eu darparu gan Magnox, ond yn gyfrinachol).

- Senario 2a: Fel Senario 1 YNGHYD Â swyddi ychwanegol ar ben y twf rhagamcanol, yn cael eu creu gan y canlynol:

i. parciau busnes Bryn Cegin (Ardal Menai) a Pharc Cybi (Caergybi);

ii. rhaglen Ynys Ynni (heb ail gyfrif swyddi ychwanegol i.)

Mae nifer y swyddi a ddefnyddiwyd ar gyfer Senario 2a ar gyfer cynlluniau anniwclear y rhaglen Ynys Ynni yn seiliedig ar y ffigurau (ceidwadol) o fodelu 2010.

- Senario 2b: Fel Senario 2a ond yn defnyddio ffigurau wedi eu diweddaru ar gyfer cynlluniau Ynys Ynni a chan gymryd bod y potensial a nodwyd gan gwmni ymgynghorwyr URS yn cael ei wireddu'n llawn h.y. mae Senario 2b yn rhoi rhyw syniad ynglŷn â'r budd mwyaf y gellid ei gyflawni drwy'r Fframwaith Ynys Ynni (ac yn sgil hynny yn darparu meincnod y gellir ei ddefnyddio i fesur cynnydd), er nad yw'n realistig disgwyl i 100% o'r cynlluniau gael eu gwireddu.

Mae Atodiad 3 yn dangos sut y cafwyd nifer swyddi anniwclear yr Ynys Ynni ar gyfer Senarios 2a a 2b.

4. Cyfraddau Twf Cyflogaeth yn ôl SIC wedi cael eu diweddaru:

Mae ESYS wedi defnyddio'r cyfraddau twf isod o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer y sectorau diwydiannol:

| Gog-orll Cymru: | A+ | B | C | D | E | F | G | H | I | J | K | L | M | N | O | P | Q | R | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2008 - 09 | 1.50% | -0.20% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | -0.70% | -4.60% | -3.30% | -4.60% | -4.70% | -4.70% | -4.70% | -4.70% | 1.00% | -0.16% | 2.67% | 2.00% | 1.00% | 1.00% |
| 2009 - 10 | -2.60% | -1.70% | 0.00% | 0.00% | 0.00% | -8.22% | -0.76% | -0.86% | -0.76% | -1.03% | -1.23% | -1.23% | -1.03% | -1.10% | -0.80% | -0.80% | -0.80% | -1.23% | -1.23% |
| 2010 - 11 | -2.20% | -1.70% | -1.00% | 0.00% | 0.00% | -0.05% | -1.43% | -0.53% | -1.43% | -0.32% | 0.24% | 0.24% | -0.32% | -0.76% | -11.34% | 1.90% | 2.81% | -0.41% | -0.41% |
| 2011 - 12 | -3.00% | -1.60% | -0.20% | 0.00% | 0.00% | 0.15% | 0.42% | 1.42% | 0.42% | 0.99% | 0.65% | 0.65% | 0.99% | 0.14% | 0.82% | 0.21% | -0.01% | -0.07% | -0.07% |
| 2012 - 13 | -3.80% | -1.70% | -1.60% | 0.00% | 0.00% | -0.03% | 1.78% | 1.08% | 1.78% | 0.35% | 0.01% | 0.01% | 0.35% | 0.24% | 0.73% | 1.36% | 0.22% | 0.03% | 0.03% |
| 2013 - 14 | -3.30% | -1.70% | -1.00% | 0.00% | 0.00% | 0.80% | 0.90% | 0.20% | 0.90% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.50% | 0.20% | -1.57% | 0.00% | -1.20% | 0.20% | 0.20% |
| 2014 - 2019 | -3.46% | -1.80% | -1.46% | 0.00% | 0.00% | 1.30% | 0.46% | 0.40% | 0.46% | 0.94% | 0.94% | 0.94% | 0.94% | 0.44% | -0.20% | -0.12% | 0.66% | 0.44% | 0.44% |
| 2019 - 2025 | -3.66% | -1.72% | -1.90% | 0.00% | 0.00% | 1.38% | 0.38% | 0.56% | 0.38% | 1.02% | 1.02% | 1.02% | 1.02% | 0.92% | 0.04% | 0.45% | 1.50% | 0.92% | 0.92% |

Seiliwyd y cyfraddau hyn ar gyfuniad o ffynonellau gan gynnwys cyfraddau'r Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth ar gyfer y cyfraddau hirdymor. Mae cyfraddau tymor byr yn seiliedig ar ddadansoddiad empirig o ddirwasgiadau blaenorol ac maent wedi cael eu diwygio i adlewyrchu gwybodaeth leol. Yn ychwanegol at hyn, mae effeithiau Toriadau'r Sector Cyhoeddus wedi cael eu hystyried yn y cyfraddau diwygiedig ar gyfer fersiwn 2011 o'r modelu. Gweler Atodiad 2 am ragor o fanylion.

5. Data sgiliau → gweler y bennod sy'n nodi'r tybiaethau manwl a wnaethpwyd.

6. Cyflogaeth Anuniongyrchol = 20% o effeithiau Cyflogaeth Uniongyrchol, ac eithrio datblygiadau Bryn Cegin a Pharc Cybi lle mabwysiadwyd effeithiau anuniongyrchol llai o 10% oherwydd y math o ddatblygiadau.

# A2 Toriadau'r sector cyhoeddus

Roedd fersiwn 2010 o waith Modelu Cyflogaeth Gogledd-orllewin Cymru gan ESYS wedi ei gyhoeddi cyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant (ACW).

Mae'r Cynulliad yn awr wedi cyhoeddi ei gyllideb derfynol ar gyfer 2011/12 hyd 2013/14 ac wedi cadarnhau'r arbedion a wnaethpwyd ar gyfer cyllideb gytunedig 2010/11. Defnyddir y wybodaeth hon i amcangyfrif cyfraddau twf/lleihad ar gyfer y sector cyhoeddus yng ngogledd-orllewin Cymru, a fydd yn cael eu cynnwys yn senario achos sail y diweddariad i'r 2011. Bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i amcangyfrif effeithiau ar gyfraddau twf/lleihad ar gyfer sectorau eraill y mae effeithiau lluosydd yn berthnasol iddynt.

**Data Cyllidebau Cymru**

Mae'r siartiau isod yn dangos y cyllidebau terfynol ar gyfer 2010/11 (a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2009), 2011/12 (a gyhoeddwyd yn Chwefror 2011) a rhagolygon cyllidebau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Mae'r ffigurau wedi eu rhannu'n dri chategori: Iechyd; Addysg a Phopeth Arall, yn unol â chodau SIC y Sector Cyhoeddus. Yn dilyn yr Etholiad Cyffredinol ym Mai 2010, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru arbed £113.5m a £49m yn y drefn honno o'i chyllidebau Refeniw a Chyfalaf ar gyfer 2010/11.

Cadarnhawyd yn ddiweddar bod yr arbedion hyn wedi cael eu cyflawni'n llawn yn 2010/11 – sy'n cyfateb i ostyngiad o 0.8% a 3.1% mewn gwariant o gymharu â'r hyn a gynlluniwyd. Mae hyn wedi effeithio ar wariant fel a ganlyn:

| £'000 | Cyllidebau Gwreiddiol 2010-11 | | | | £'000 | Arbedion ACW ar ôl Mehefin 2010 2010-11: | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Refeniw | Cyfalaf | Cyfanswm | | | Refeniw | Cyfalaf | Cyfanswm |
| Iechyd | £5,887,417 | £296,612 | £6,184,029 | → | Iechyd | £5,840,475 | £287,420 | £6,127,895 |
| Addysg | £1,692,892 | £358,490 | £2,051,382 | → | Addysg | £1,679,394 | £347,381 | £2,026,775 |
| Popeth Arall | £6,654,703 | £926,137 | £7,580,840 | → | Popeth Arall | £6,601,643 | £897,438 | £7,499,081 |
| | **£14,235,012** | **£1,581,239** | **£15,816,251** | | | **£14,121,512** | **£1,532,239** | **£15,653,751** |
| | | Arbedion ar y Cyllidebau Gwreiddiol: | | | | -£113,500 | -£49,000 | -£162,500 |
| | | Toriadau Mehefin: | | | | -0.80% | -3.10% | -1.03% |

**Tabl 1a: Cyllidebau Gwreiddiol a Diwygiedig Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru, 2010/11**

Mae'r cyllidebau ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf newydd gael eu cyhoeddi (Chwefror 2011) ac mae'r tabl isod yn dangos y rhain, ynghyd â chyfraddau'r newid o'r naill flwyddyn i'r llall:

| | **2011-12** | | | **2012-13** | | | **2013-14** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** | **Refeniw** | **Cyfalaf** | **Cyfanswm** |
| Iechyd | £6,004,768 | £264,790 | £6,269,558 | £6,004,265 | £246,293 | £6,250,558 | £6,017,565 | £219,550 | £6,237,115 |
| Addysg | £1,711,332 | £391,009 | £2,102,341 | £1,714,903 | £387,024 | £2,101,927 | £1,738,154 | £370,250 | £2,108,404 |
| Popeth Arall | £5,852,984 | £777,793 | £6,630,777 | £5,900,855 | £729,158 | £6,630,013 | £5,943,699 | £649,804 | £6,593,503 |
| | **£13,569,084** | **£1,433,592** | **£15,002,676** | **£13,620,023** | **£1,362,475** | **£14,982,498** | **£13,699,418** | **£1,239,604** | **£14,939,022** |
| | Newidiadau o'r Naill Flwyddyn i'r Llall: | | | | | | | | |
| Iechyd | 2.81% | -7.87% | 2.31% | -0.01% | -6.99% | -0.30% | 0.22% | -10.86% | -0.22% |
| Addysg | 1.90% | 12.56% | 3.73% | 0.21% | -1.02% | -0.02% | 1.36% | -4.33% | 0.31% |
| Popeth Arall | -11.34% | -13.33% | -11.58% | 0.82% | -6.25% | -0.01% | 0.73% | -10.88% | -0.55% |
| | **-3.91%** | **-6.44%** | **-4.16%** | **0.38%** | **-4.96%** | **-0.13%** | **0.58%** | **-9.02%** | **-0.29%** |

**Tabl 1b: Cyllidebau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru, 2011/12 - 2013/14**

Mae'r rhain yn cynrychioli toriadau o £1.93bn a £757m i wariant Refeniw a Chyfalaf dros gyfnod o bedair blynedd, o gymharu â chyllideb wreiddiol 2010/11 a chan anwybyddu chwyddiant sy'n cynyddu'r effaith eto.

Mae'r siartiau'n dangos gostyngiad cyffredinol o 4.16% yng ngwariant 2011/12 o gymharu â 2010/11 a gostyngiadau ychwanegol o 0.13% a 0.29% yn y ddwy flynedd ganlynol.

**Effaith ar Gyfraddau Twf Model Cyflogaeth Gogledd-orllewin Cymru**

Mae gwariant refeniw yn cynnwys costau cyflogaeth y sector cyhoeddus. Ymddengys yn rhesymol cymryd y bydd gostyngiad o 3.9% yng nghyfanswm y gwariant refeniw, yn arwain at yr un gostyngiad yng nghostau cyflogaeth y sector cyhoeddus a thrwy hynny yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Yn ychwanegol at hyn, bydd y newid mewn swyddi sector cyhoeddus yn cael effaith lluosydd ar nifer y swyddi mewn sectorau gwasanaeth o ganlyniad i'r gostyngiad yng ngallu unigolion sy'n cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus i wario. Hynny yw, am bob X% o

newid yn swyddi’r Sector Cyhoeddus, bydd newid o Y% yn swyddi’r sector gwasanaeth. Er mwyn asesu’r cysylltiad rhwng X ac Y, gallwn edrych ar bwysigrwydd y Sector Cyhoeddus yn ei gyfanrwydd:

| **Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn, 2009** | **Cymru** | | **Gogledd-orllewin Cymru** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| A : Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota | 12,400 | 1.29% | 200 | 0.26% |
| B : Mwyngloddio a chwarela | 1,600 | 0.17% | 400 | 0.44% |
| C : Gweithgynhyrchu | 130,400 | 13.62% | 6,100 | 7.37% |
| D : Cyflenwi trydan, nwy, stêm ac aerdymheru | 5,900 | 0.61% | 1,100 | 1.29% |
| E : Rheoli cyflenwad dŵr; carthffosiaeth, gwastraff a gweithgareddau adfer | 8,100 | 0.84% | 900 | 1.06% |
| F : Adeiladu | 55,400 | 5.78% | 4,800 | 5.77% |
| G : Masnach gyfanwerthu ac adwerthu; atgyweirio cerbydau modur a beiciau modur | 140,500 | 14.68% | 13,900 | 16.80% |
| H : Trafnidiaeth a storio | 36,600 | 3.82% | 3,300 | 3.93% |
| I : Gweithgareddau llety a gwasanaethau bwyd | 55,800 | 5.83% | 9,300 | 11.20% |
| J : Gwybodaeth a chyfathrebu | 21,000 | 2.19% | 1,400 | 1.75% |
| K : Gweithgareddau ariannol ac yswiriant | 27,100 | 2.83% | 1,400 | 1.67% |
| L : Gweithgareddau eiddo tiriog | 9,200 | 0.96% | 800 | 0.98% |
| M : Gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 40,900 | 4.27% | 3,500 | 4.25% |
| N : Gweithgareddau gweinyddiaeth a gwasanaethau cymorth | 58,900 | 6.15% | 2,900 | 3.46% |
| **O : Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn; nawdd cymdeithasol gorfodol** | **81,600** | **8.53%** | **6,800** | **8.22%** |
| **P : Addysg** | **93,300** | **9.75%** | **9,500** | **11.44%** |
| **Q : Gweithgareddau iechyd dynol a gwaith cymdeithasol** | **143,400** | **14.98%** | **13,000** | **15.65%** |
| R : Y celfyddydau, adloniant a hamdden | 19,900 | 2.08% | 2,300 | 2.79% |
| S : Gweithgareddau gwasanaeth eraill | 15,200 | 1.59% | 1,400 | 1.68% |
| | **957,200** | **100.00%** | **83,000** | **100.00%** |
| Ffynhonnell: Cofrestr Busnes ac Arolwg Cyflogaeth ONS (BRES). Mae’r ffigurau wedi eu talgrynnu i’r 100 agosaf er mwyn cydymffurfio â gofynion datgelu data. Mae’r canrannau’n seiliedig ar ffigurau heb eu talgrynnu. | | | | |

Gwelir bod dros 35% o gyfanswm cyflogaeth yr is-ranbarth yn y Sector Cyhoeddus yn 2009. Mae lleihad yn y swyddi hyn yn debygol o effeithio ar wariant unigolion ar nwyddau o'r sectorau a ganlyn: C; G; H; I; R ac S (er ei bod yn bosibl na fydd lleihad mewn gwariant yn Sector C yn cael cymaint â hynny o effaith ar swyddi gan y bydd y rhan fwyaf o'r lleihad mewn gwariant ar nwyddau sydd wedi eu cynhyrchu y tu allan i'r is-ranbarth).

Roedd y sectorau hyn (ar wahân i C) yn gyfrifol am 36% o gyflogaeth yr is-ranbarth yn 2009. Os cymerwn bod pob 10 swydd CALl yn y Sector Cyhoeddus yn cefnogi 1 swydd CALl yn y sectorau hyn, yna am bob 1% o newid yn swyddi'r Sector Cyhoeddus, gallem ddisgwyl newid cysylltiedig (35/36)*(1/10)=0.09% mewn swyddi yn y sectorau hyn.
Bydd gostyngiad hefyd mewn gwariant refeniw uniongyrchol ar gyflenwadau a gwasanaethau ac mae'r gostyngiadau mewn gwariant cyfalaf hefyd yn effeithio ar gyflogaeth yn y sectorau Adeiladu (F) a Gwasanaeth.
Os cymerwn bod 60% o'r gwariant Refeniw ar Gyflenwadau a Gwasanaethau (40% ar gostau staff) a bod 100% o'r gwariant Cyfalaf ar Adeiladu, Cyflenwadau a Gwasanaethau a bod pob £100,000 o wariant allanol yn cefnogi un swydd leol yn y sectorau hynny, yna:

- newid o 1% mewn gwariant refeniw = newid o 0.6% mewn gwariant refeniw ar Gyflenwadau a Gwasanaethau, sy'n cyfateb i tua £85m – yn cefnogi 850 o swyddi 'lleol' ledled Cymru – ar sail cyllidebau gwreiddiol 2010/11. Mae hyn yn cyfateb i 0.24% o'r swyddi yn sectorau G i J, ynghyd ag M ac N.

- newid o 1% mewn gwariant cyfalaf = newid o 0.5% mewn gwariant cyfalaf ar Adeiladu (F) a newid o 0.5% mewn gwariant cyfalaf ar Gyflenwadau a Gwasanaethau eraill, sy'n cyfateb i tua £15.8m – yn cefnogi 79 o swyddi adeiladu 'lleol' a 79 o swyddi gwasanaeth 'lleol' ledled Cymru – ar sail cyllidebau gwreiddiol 2010/11. Mae hyn yn cyfateb i 0.02% o'r swyddi yn sectorau G i M a 0.14% o'r swyddi yn y sector Adeiladu.

**Cyfraddau Twf Diwygiedig Model Cyflogaeth Gogledd-orllewin Cymru**
Mae rhoi'r wybodaeth hon i gyd at ei gilydd yn arwain at yr amcangyfrifon diwygiedig a ganlyn o gyfraddau twf ar gyfer y sectorau sy'n cael eu heffeithio:

| Cyfraddau Newid Sectoraidd Gogledd-orllewin Cymru: | | F | G | H | I | J | K | L | M | N | O | P | Q | R | S |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2009/10 - 2010/11 | Gwerthoedd – Fers. 2010 | -8.00% | -1.00% | -1.10% | -1.00% | -1.20% | -1.20% | -1.20% | -1.20% | -1.30% | -1.98% | -2.02% | -1.13% | -1.30% | -1.30% |
| | + Newid mewn Gwariant Defnyddwyr | | 0.07% | 0.07% | 0.07% | | | | | | ↓ | ↓ | ↓ | 0.07% | 0.07% |
| | + Newid mewn Gwariant SC ar Nwyddau a Gwasanaeth | | 0.20% | 0.20% | 0.20% | 0.20% | | | 0.20% | 0.20% | ↓ | ↓ | ↓ | | |
| | + Newid mewn Gwariant Cyfalaf SC | -0.22% | -0.03% | -0.03% | -0.03% | -0.03% | -0.03% | -0.03% | -0.03% | | ↓ | ↓ | ↓ | | |
| | **GWERTHOEDD DIWYGIEDIG:** | **-8.22%** | **-0.76%** | **-0.86%** | **-0.76%** | **-1.03%** | **-1.23%** | **-1.23%** | **-1.03%** | **-1.10%** | **-0.80%** | **-0.80%** | **-0.80%** | **-1.23%** | **-1.23%** |
| 2010/11 - 2011/12 | Gwerthoedd – Fers. 2010 | 0.40% | -0.60% | 0.30% | -0.60% | 0.30% | 0.30% | 0.30% | 0.30% | -0.20% | -4.52% | -1.18% | -0.37% | -0.20% | -0.20% |
| | + Newid mewn Gwariant Defnyddwyr | | -0.21% | -0.21% | -0.21% | | | | | | ↓ | ↓ | ↓ | -0.21% | -0.21% |
| | + Newid mewn Gwariant SC ar Nwyddau a Gwasanaeth | | -0.56% | -0.56% | -0.56% | -0.56% | | | -0.56% | -0.56% | ↓ | ↓ | ↓ | | |
| | + Newid mewn Gwariant Cyfalaf SC | -0.45% | -0.06% | -0.06% | -0.06% | -0.06% | -0.06% | -0.06% | -0.06% | | ↓ | ↓ | ↓ | | |
| | **GWERTHOEDD DIWYGIEDIG:** | **-0.05%** | **-1.43%** | **-0.53%** | **-1.43%** | **-0.32%** | **0.24%** | **0.24%** | **-0.32%** | **-0.76%** | **-11.34%** | **1.90%** | **2.81%** | **-0.41%** | **-0.41%** |
| 2011/12 - 2012/13 | Gwerthoedd – Fers. 2010 | 0.50% | 0.00% | 1.00% | 0.00% | 0.70% | 0.70% | 0.70% | 0.70% | -0.20% | -2.37% | -0.64% | -0.64% | -0.20% | -0.20% |
| | + Newid mewn Gwariant Defnyddwyr | | 0.13% | 0.13% | 0.13% | | | | | | ↓ | ↓ | ↓ | 0.13% | 0.13% |
| | + Newid mewn Gwariant SC ar Nwyddau a Gwasanaeth | | 0.34% | 0.34% | 0.34% | 0.34% | | | 0.34% | 0.34% | ↓ | ↓ | ↓ | | |
| | + Newid mewn Gwariant Cyfalaf SC | -0.35% | -0.05% | -0.05% | -0.05% | -0.05% | -0.05% | -0.05% | -0.05% | | ↓ | ↓ | ↓ | | |
| | **GWERTHOEDD DIWYGIEDIG:** | **0.15%** | **0.42%** | **1.42%** | **0.42%** | **0.99%** | **0.65%** | **0.65%** | **0.99%** | **0.14%** | **0.82%** | **0.21%** | **-0.01%** | **-0.07%** | **-0.07%** |
| 2012/13 - 2013/14 | Gwerthoedd – Fers. 2010 | 0.60% | 1.40% | 0.70% | 1.40% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | 0.10% | -0.10% | -0.95% | -0.77% | -0.82% | -0.10% | -0.10% |
| | + Newid mewn Gwariant Defnyddwyr | | 0.13% | 0.13% | 0.13% | | | | | | ↓ | ↓ | ↓ | 0.13% | 0.13% |
| | + Newid mewn Gwariant SC ar Nwyddau a Gwasanaeth | | 0.34% | 0.34% | 0.34% | 0.34% | | | 0.34% | 0.34% | ↓ | ↓ | ↓ | | |
| | + Newid mewn Gwariant Cyfalaf SC | -0.63% | -0.09% | -0.09% | -0.09% | -0.09% | -0.09% | -0.09% | -0.09% | | ↓ | ↓ | ↓ | | |
| | **GWERTHOEDD DIWYGIEDIG:** | **-0.03%** | **1.78%** | **1.08%** | **1.78%** | **0.35%** | **0.01%** | **0.01%** | **0.35%** | **0.24%** | **0.73%** | **1.36%** | **0.22%** | **0.03%** | **0.03%** |

Sylwer bod y toriadau mewn gwariant refeniw yn y Sector Cyhoeddus yn llawer gwaeth na’r disgwyl yn y flwyddyn sydd i ddod, ond heb fod cynddrwg y llynedd nac yn y ddwy flynedd ganlynol, felly mae gwelliannau mewn gwirionedd mewn rhai blynyddoedd/categorïau. Mae gwariant cyfalaf fodd bynnag yn llawer gwaeth ym mhob un o’r 4 blynedd ac mae’n cael effaith negyddol iawn ar y sector Adeiladu (F).

# A3 Nifer swyddi Ynys Ynni

**Senario 2a: Asesiad Ceidwadol**

Y niferoedd swyddi anniwclear yn gysylltiedig â'r rhaglen Ynys Ynni a ddefnyddiwyd yn Senario 2a yw'r amcangyfrifon ceidwadol, a ddefnyddiwyd yn fersiwn 2010 o astudiaeth 'NWW Economic Futures', wedi eu cyfrifo ar sail yr amcangyfrifon o nifer y swyddi a ddarparwyd gan URS fel a ganlyn:

**Ynys Ynni Ynys Môn : Crynodeb o Gyfleoedd ar gyfer y Gadwyn Gyflenwi**

| Segment ynni | Cam | 2010 | 2015 | 2020 | 2024 | % tebygolrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **BIOMAS** | | | | | | **45%** |
| Uniongyrchol | Adeiladu | 2 | 5 | 5 | 5 | |
| Union., anunion. a chymhellol | Adeiladu | 2 | 6 | 6 | 6 | |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 16 | 143 | 156 | 167 | 75 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 17 | 157 | 171 | 184 | 83 |
| **LLANW** | | | | | | **60%** |
| Uniongyrchol | Adeiladu | 0 | 3 | 0 | 18 | |
| Union., anunion. a chymhellol | Adeiladu | 0 | 3 | 0 | 23 | |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 0 | 1 | 14 | 26 | 16 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 0 | 1 | 15 | 29 | 17 |
| **GWYNT AR Y MÔR** | | | | | | **50%** |
| Uniongyrchol | Adeiladu | 0 | 15 | 48 | 0 | |
| Union., anunion. a chymhellol | Adeiladu | 0 | 20 | 62 | 0 | |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 0 | 18 | 176 | 176 | 88 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 0 | 21 | 202 | 202 | 101 |
| **GWYNT AR Y TIR** | | | | | | **65%** |
| Uniongyrchol | Adeiladu | 0 | 40 | 10 | 10 | |
| Union., anunion. a chymhellol | Adeiladu | 0 | 48 | 12 | 12 | |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 2 | 4 | 8 | 10 | 6 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 3 | 5 | 9 | 11 | 7 |
| **EFFEITHLONRWYDD YNNI A MICROGYNHYRCHU** | | | | | | **65%** |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 6 | 29 | 35 | 35 | 23 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 7 | 35 | 42 | 42 | 27 |
| **CYFANSYMIAU** | | | | | | |
| **Adeiladu** | | | | | | |
| Cyfanswm uniongyrchol | | 2 | 62 | 62 | 33 | |
| Cyfanswm uniongyrchol, anuniongyrchol a chymhellol | | 2 | 76 | 79 | 42 | |
| **Gweithredu** | | | | | | **Cyfanswm Tebygol:** |
| Cyfanswm uniongyrchol | | 24 | 196 | 389 | 414 | 208 |
| Cyfanswm uniongyrchol, anuniongyrchol a chymhellol | | 27 | 219 | 440 | 468 | 236 |
| | | | | | | Erbyn 2024 |
| **Cyfun** | | | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm uniongyrchol | 26 | 258 | 451 | 447 |
| Cyfanswm uniongyrchol, anuniongyrchol a chymhellol | 29 | 295 | 520 | 510 |

Ffynhonnell: Astudiaeth Ynys Ynni URS

Lluosodd ESYS amcangyfrifon swyddi URS yn ôl y tebygolrwydd y byddai'r cynlluniau penodol yn cael eu gwireddu, neu faint o bob cynllun y gallem yn rhesymol ddisgwyl iddo gael ei wireddu. Felly, ar ôl eu cydgrynhoi roeddent yn rhoi darlun mwy realistig o'r effaith y gallai Fframwaith Ynys Ynni ei gael ar nifer y swyddi.

Y canlyniad terfynol oedd mai'r effaith debygol fyddai 236 o swyddi gweithredol ychwanegol erbyn 2024 (swyddi uniongyrchol, anuniongyrchol a chymhellol). Byddai swyddi adeiladu hefyd yn cael eu creu yn ystod y gorwel cynllunio 20 mlynedd, ond swyddi dros dro fyddai'r rhain.

Yn y fersiwn hwn o ffigurau URS, dosbarthwyd swyddi yn yr is-sector Llanw fel swyddi 'gweithredu', ond ers hynny maent wedi diwygio'r swyddi hyn fel swyddi adeiladu / gosod dros dro.

Cynhwyswyd swyddi anniwclear Ynys Ynni yn y gwaith modelu fel rhan o ragamcanion swyddi Parc Cybi. Ar ôl caniatáu ar gyfer difuddiant a dadleoli, cafodd 95 o swyddi ychwanegol eu cynnwys o 2020 i 2024 yn y sectorau Trafnidiaeth, Warysau a Dosbarthu a Gweithgynhyrchu, ynghyd â 10 o swyddi ychwanegol anuniongyrchol.

Cymerwyd bod swyddi adeiladu yn deillio o gynlluniau YNYS YNNI yn cael eu cynnwys yng nghyfraddau twf y sector adeiladu.

**Senario 2b: Asesiad Diwygiedig**

Mae amcangyfrif llai gwyliadwrus o swyddi anniwclear YNYS YNNI wedi ei baratoi ar sail y newidiadau a ganlyn:

- Mae URS wedi darparu ei amcangyfrifon diweddaraf ar gyfer nifer y swyddi
- Mae swyddi llanw wedi cael eu hailddosbarthu fel swyddi Adeiladu / Gosod yn hytrach na Gweithredu
- Mae ceisiadau cynllunio wedi eu cyflwyno yn awr ar gyfer llawer o'r datblygiadau mawr sy'n gwneud y cynlluniau yn fwy tebygol o gael eu gwireddu.
- Mae'n ymddangos bod yr amserlen ar gyfer rhai o'r swyddi wedi symud ymlaen
- Mae'r astudiaeth hon ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn, ac mae'n ymwneud â darparu meincnod y gellir ei ddefnyddio i fesur faint o botensial Fframwaith Ynys Ynni sy'n cael ei wireddu. O ganlyniad, mae'r amcangyfrifon diwygiedig hyn ar gyfer y senario yn

rhagdybio y bydd 100% o’r cynlluniau’n cael eu gwireddu, yn hytrach na defnyddio tebygolrwydd.

Mae’r siart isod yn dangos sut y mae’r amcangyfrifon swyddi diwygiedig yn llawer uwch na fersiwn 2010. Hyd yn oed cyn ystyried canrannau ‘tebygolrwydd’ ceidwadol 2010, mae’r ffigurau diwygiedig yn amcangyfrif niferoedd llawer uwch ar gyfer swyddi adeiladu a gosod.

Er bod y ffigurau isod yn ymwneud â 4 blwyddyn benodol, mae URS wedi darparu’r ffigurau ar gyfer pob blwyddyn o 2009 i 2025. Mae’r rhain wedi cael eu trosi gan ESYS i newidiadau o’r naill flwyddyn i’r llall a’r gyflogaeth uniongyrchol wedi cael ei phriodoli i Adeiladu; Gweithgynhyrchu a Chyfanwerthu ac ati; tra mae swyddi anuniongyrchol wedi cael eu priodoli i sectorau C, G i N, ac R i S. Cymerir bod y swyddi uniongyrchol o’r cynlluniau i gyd wedi eu lleoli ym Môn, ac amcangyfrifir bod 27% o’r swyddi anuniongyrchol wedi eu lleoli ym Môn.

| | | **Ffigurau Diweddaredig 2011: Senario 2b** | | | | | **Fersiwn 2010: Senario 2a** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Segment Ynni** | | **2010** | **2015** | **2020** | **2024** | **Tebygol.** | **2010** | **2015** | **2020** | **2024** | **Tebygol.** |
| BIOMAS | | | | | | 100% | | | | | 45% |
| Uniongyrchol | Adeiladu | 1 | 5 | 7 | 9 | | 2 | 5 | 5 | 5 | |
| Union., anunion. a chymhellol | Adeiladu | 5 | 19 | 29 | 39 | | 2 | 6 | 6 | 6 | |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 15 | 131 | 136 | 139 | | 16 | 143 | 156 | 167 | 75 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 21 | 181 | 188 | 193 | | 17 | 157 | 171 | 184 | 83 |
| LLANW | | | | | | 100% | | | | | 60% |
| Uniongyrchol | Adeiladu | 0 | 1 | 0 | 10 | | 0 | 3 | 0 | 18 | |
| Union., anunion. a chymhellol | Adeiladu | 0 | 6 | 0 | 41 | | 0 | 3 | 0 | 23 | |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 0 | 1 | 11 | 21 | | 0 | 1 | 14 | 26 | 16 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 0 | 2 | 16 | 31 | | 0 | 1 | 15 | 29 | 17 |
| GWYNT AR Y MÔR | | | | | | 100% | | | | | 50% |
| Uniongyrchol | Adeiladu | 0 | 8 | 26 | 0 | | 0 | 15 | 48 | 0 | |
| Union., anunion. a chymhellol | Adeiladu | 0 | 37 | 116 | 0 | | 0 | 20 | 62 | 0 | |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 0 | 0 | 151 | 151 | | 0 | 18 | 176 | 176 | 88 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 0 | 0 | 227 | 227 | | 0 | 21 | 202 | 202 | 101 |
| GWYNT AR Y TIR | | | | | | 100% | | | | | 65% |
| Uniongyrchol | Adeiladu | 0 | 20 | 5 | 5 | | 0 | 40 | 10 | 10 | |
| Union., anunion. a chymhellol | Adeiladu | 0 | 91 | 23 | 23 | | 0 | 48 | 12 | 12 | |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 2 | 4 | 8 | 9 | | 2 | 4 | 8 | 10 | 7 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 3 | 6 | 12 | 14 | | 3 | 5 | 9 | 11 | 7 |
| EFFEITHLONRWYDD YNNI A MICRO | | | | | | 100% | | | | | 65% |
| Uniongyrchol | Gosod | 3 | 15 | 18 | 18 | | | | | | |
| Union., anunion. a chymhellol | Gosod | 13 | 66 | 80 | 80 | | | | | | |
| Uniongyrchol | Gweithredu | | | | | | 6 | 29 | 35 | 35 | 23 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | | | | | | 7 | 35 | 42 | 42 | 27 |
| CYFANSYMIAU | | | | | | | | | | | |
| Uniongyrchol | Adeil/Gosod | 4 | 49 | 56 | 42 | | 8 | 92 | 98 | 68 | 23 |
| Union., anunion. a chymhellol | Adeil/Gosod | 18 | 218 | 248 | 182 | | 9 | 112 | 122 | 83 | 27 |
| Uniongyrchol | Gweithredu | 17 | 136 | 306 | 321 | | 24 | 195 | 389 | 414 | 208 |
| Union., anunion. a chymhellol | Gweithredu | 24 | 189 | 443 | 465 | | 27 | 219 | 439 | 468 | 236 |
| CYFANSYMIAU CYFUN | | | | | | | | | | | |
| Uniongyrchol | | 21 | 186 | 362 | 364 | | 32 | 287 | 487 | 482 | 231 |
| Union., anunion. a chymhellol | | 42 | 407 | 690 | 647 | | 36 | 331 | 561 | 551 | 263 |
| | | | | | | | | | | | Swyddi erbyn 2024 |